

Strategaeth

Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru 2018-2023

CYNNWYS

- 1. Rhagymadrodd gan Gefnogwr Rhanbarthol Atal Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**
- 2. Crynodeb Gweithredol**
- 3. Cyflwyniad**
- 4. Methodoleg**
- 5. Goroeswyr fel Arbenigwyr**
- 6. Gweledigaeth ac Amcanion Strategol**
- 7. Crynodeb o Asesiad Anghenion VAWDASV**
- 8. Gwasanaethau a mapio adnoddau**
- 9. Canlyniadau: newid cadarnhaol i'w gyflawni ar draws Gogledd Cymru**
- 10. Cynllun Gweithredu ac Amserlenni**
- 11. Atodiadau**
 - Atodiad 1 – Diffiniadau a Geirfa**
 - Atodiad 2 – Trefniadau llywodraethu rhanbarthol ar gyfer atal VAWDASV**
 - Atodiad 3 – Cynllun Comisiynu (i ddilyn)**

1. RHAGAIR

Fel arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus, mae rhai adegau pan fydd yn rhaid i chi gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb personol a moesol am y pethau rydych yn eu gweld o'ch cwrdd bob dydd. Gall y rhain fod yn faterion cymhleth a gall gymryd dewrder i siarad allan a gweithredu, yn hytrach nag aros i rywun arall wneud hynny.



Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dri o'r pethau hyn. Bydd gan rai ohonom rôl i'w chwarae i atal ac ymateb iddynt yn rhinwedd ein swyddi proffesiynol. Bydd gan rai ohonom hefyd rôl i'w chwarae fel rheolwyr a goruchwylwyr i gefnogi cydweithwyr sydd efallai yn ddioddefwyr, neu hyd yn oed gweithredu mewn achosion lle bydd gweithiwr yn gyfrifol am gyflawni'r troseddau hyn. Uwchlaw'r swyddogaethau hyn, mae gennym oll gyfrifoldeb personol a moesol i weithredu. Po fwyaf ohonom fydd yn barod i sefyll i fyny, siarad a gweithredu, po fwyaf bydd yr effaith wrth helpu cymdeithas i helpu ei hun a chreu newid cadarnhaol. Ni ddylem byth fychanu pŵer gweithredu ar y cyd sy'n cael ei ysgogi gan amcan moesol cadarn.

Mae'r strategaeth hon yn cyfuno pwrpas, adnoddau a chamau gweithredu ar gyfer sefydliadau a gweithwyr proffesiynol sy'n bartneriaid, er mwyn iddynt fachu ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil deddfwriaeth a pholisïau newydd i annog a gorfodi newid - newid agweddau, newid ymddygiad, newid yn nhermau camau ataliol gan unigolion a chymdeithas, newid o ran peidio â bod yn barod i ddioddef pethau annerbyniol ac yn nhermau gorfodaeth.

Mae gan Ogledd Cymru enw da am weithio fel rhanbarth i gyrraedd nod cyffredin ac mae'r strategaeth hon yn ymgorffori set newydd o ymrwymadau i weithio'n wahanol er mwyn atal trais a cham-drin domestig. Mae hon yn flaenoriaeth i bob un ohonom.

A fydddech cystal â darllen y strategaeth a meddwl am y pethau y gallwch chi, eich sefydliad a'ch cymuned broffesiynol eu gwneud. Bydd y deunyddiau hyfforddiant rydym wedi eu derbyn yn siŵr o ennyn ymateb. Da chi, ewch ati i ddefnyddio egni'r ymateb hwnnw at ryw ddiben proffesiynol a phersonol.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Colin Everett'.

Colin Everett

Chief Executive

Flintshire County Council

2. CRYNODEB GWEITHREDOL⁹

Ein gweledigaeth Gogledd Cymru:

Bod pobl Gogledd Cymru'n gallu byw bywydau diogel, cyfartal, di-drais, mewn cymunedau heb drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae Gogledd Cymru'n cydweithio i fynd i'r afael â phob agwedd ar Drais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, wedi'i seilio o amgylch 6 amcan allweddol, yn sail i hynny ceir yr amcanion cenedlaethol sydd wedi'u corffori yn Neddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015:

Atal

Amcan 1: Mwy o ymwybyddiaeth a herio agweddau o drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Gogledd Cymru.

Amcan 2: Mwy o ymwybyddiaeth mewn plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasau diogel, cyfartal ac iach, a bod ymddygiad treisgar yn anghywir bob amser.

Amddiffyn

Amcan 3: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif a rhoi cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch dioddefwyr.

Amcan 4: Gwneud ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth.

Darparu cefnogaeth

Amcan 5: Mae gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael hyfforddiant i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol ac addas i ddioddefwyr a goroeswyr.

Amcan 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau gydag adnoddau addas, sydd o ansawdd uchel, dan arweiniad anghenion, yn seiliedig ar gryfderau, sy'n ymateb i rywedd, ar draws Gogledd Cymru.

Bydd y strategaeth yn dangos bod Gogledd Cymru yn ymroddedig i ddull cydweithredol, cydlynol i fynd i'r afael â'r materion hyn, drwy gyd-gynhyrchu gwasanaethau a gwaith partneriaeth ar bob lefel. Drwy arweinyddiaeth glir ac ymroddedig gan Fwrdd Strategol VAWDASV Gogledd Cymru, byddwn yn parhau i flaenoriaethu arfer da a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n unol ag anghenion cymunedau lleol.

Bydd y strategaeth hon yn galluogi ac yn cefnogi arferion a syniadau arloesol, yn ogystal â chefnogi gwasanaethau hir-sefydledig, er mwyn darparu pecyn cefnogi cyflawn i ddioddefwyr, goroeswyr a'u teuluoedd. Bydd yn canolbwyntio ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif am eu gweithredoedd, yn ogystal â chefnogi teuluoedd i adeiladu ar eu perthnasau a hyrwyddo ethos o berthnasau diogel ac iach i bawb.

3. CYFLWYNIAD

Mae Cymru wedi cael Strategaeth genedlaethol Trais yn erbyn Merched ers 2010 (Strategaeth Hawl i fod yn Ddiogel), a gafodd ei hadnewyddu a'i diweddarau yn Nhachwedd 2016, yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol newydd yng Nghymru¹. Mae Strategaeth Genedlaethol 2016-2021 yn nodi ymrwymiad wedi'i adnewyddu i fynd i'r afael â thrais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru², gyda ffocws ar atal, amddiffyn a darparu cefnogaeth.

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru yn cydnabod tystiolaeth fyd-eang a'r DU bod trais yn erbyn merched yn ymyrryd ar hawliau dynol ac yn achos ac yn ganlyniad anghydraddoldeb ar sail rhywedd. Mae hyn yn golygu, pan fydd merched a genethod yn profi cam-drin domestig, trais rhywiol neu ffurfiau eraill o drais neu gamdriniaeth, mae hyn yn gweithredu fel rheolaeth gymdeithasol sy'n cynnal cysylltiadau pŵer anghyfartal, sy'n gysylltiedig â gwahaniaethu systematig yn erbyn merched a genethod, ac yn atgyfnerthu statws israddol merched. Gall methu â gwneud y cysylltiadau rhwng ffurfiau gwahanol o drais y mae merched a genethod yn eu profi, a sut y caiff hyn ei gysylltu'n glir ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, rwystro effeithiolrwydd gwaith atal ac ymyrryd. Gall grwpiau gwahanol o ferched hefyd brofi sawl anghydraddoldeb, sy'n gallu croestorri mewn ffyrdd sy'n arwain at ragor o anfanteision.

Mae'r ddealltwriaeth a'r dull hwn yn cael eu hatgyfnerthu yn y Strategaeth Genedlaethol a Chonfensiwn Ewrop ar Atal a Gwrthsefyll Trais yn erbyn Merched a Thrais Domestig (Confensiwn Istanbwl),³ y mae'r DU yn llofnodydd, ac y mae disgwyl iddo gael ei gadarnhau gan Lywodraeth y DU.

Mae Confensiwn Istanbwl yn diffinio trais yn erbyn merched fel:

Mae "Trais yn erbyn merched" yn cael ei ddeall fel ymyrryd ar hawliau dynol ac yn ffurf o wahaniaethu yn erbyn merched, a bydd yn golygu pob gweithred o drais sy'n seiliedig ar ryw, sy'n arwain at, neu'n debygol o arwain at, niwed neu ddioddefaint corfforol, rhywiol, seicolegol neu economaidd i ferched, yn cynnwys bygythiadau o unrhyw weithredoedd o'r fath, gorfodaeth neu amddifadedd mympwyol o ryddid, boed yn gyhoeddus neu mewn bywyd preifat" (Confensiwn Istanbwl).

Fel y nodir gan Strategaeth Cymru, gall hyn gynnwys:

- (a) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol yn digwydd yn y teulu, yn cynnwys curo, cam-drin rhywiol o blant benywaidd yn yr aelwyd, trais yn gysylltiedig â gwaddol, trais priodasol, anffurfio organau cenhedlu merched ac arferion traddodiadol eraill sy'n niweidio merched, trais nad ydyw'n briodasol a thrais yn gysylltiedig ag ecsbloetiaeth;
- (b) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd yn y gymuned gyffredinol, yn cynnwys trais, cam-drin rhywiol, aflonyddu rhywiol a bygythiadau yn y gwaith, mewn sefydliadau addysgol a mannau eraill, masnachu mewn merched a'u gorfodi i buteinio;
- (c) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol a achosir neu a oddefir gan y Wladwriaeth, ble bynnag y bo'n digwydd

¹ Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

www.gov.wales/legislation/programme/assemblybills/domestic-abuse/?lang=en

² <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-en.pdf>

³ <https://rm.coe.int/CoERMPublicCommonSearchServices/DisplayDCTMContent?documentId=090000168046031c>

Mae VAWDASV yn cynnwys: cam-drin domestig, trais a thrais rhywiol, stelcian, anffurfio organau cenhedlu merched (FGM), priodas dan orfod, troseddau a gyflawnwyd yn enw 'anrhydedd', caethwasiaeth fodern/masnachu, cam-fanteisio'n rhywiol ar unigolyn, yn cynnwys yn fasnachol drwy'r diwydiant rhyw, ac aflonyddu rhywiol. *Gweler yr Atodiad am fwy o ddiffiniadau.*

Er ei fod yn bwysig bod y Strategaeth hon yn cydnabod ac yn mynegi profiad anghyfartal merched a genethod, nid yw hyn yn dileu'r trais a'r gamdriniaeth a gyfeirir at ddynion a bechgyn a gyflawnir gan ferched.

Mae'r Strategaeth hon yn cydnabod y gall unrhyw un (merched, dynion, plant a phobl ifanc) brofi a chael eu heffeithio gan y mathau hyn o gamdriniaeth, a gall ddigwydd mewn unrhyw berthynas waeth beth yw'r rhyw, oedran, ethnigrwydd, rhywedd, rhywioldeb, anabledd, crefydd neu gred, incwm, daearyddiaeth neu ffordd o fyw.

Fodd bynnag, mae blaenoriaethau'r strategaeth a'i darpariaeth (yn unol â'r Strategaeth Genedlaethol) yn cael eu llywio gan dystiolaeth fyd-eang a chenedlaethol fod merched a genethod yn cael eu heffeithio'n anghyfartal gan gam-drin domestig, trais a thrais rhywiol, cam-fanteisio'n rhywiol arnynt (yn cynnwys drwy'r diwydiant rhyw), caethwasiaeth fodern, priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu merched, cam-drin plant yn rhywiol, stelcian ac aflonyddu rhywiol. Nid yw'r rhain yn ddigwyddiadau ar eu pen eu hunain, ond yn hytrach yn batrwm o ymddygiad sy'n ymyrryd ar hawliau merched a genethod, yn cyfyngu ar eu cyfranogiad mewn cymdeithas, yn niweidio eu hiechyd a'u lles, ac wedi'u gwreiddio mewn anghydraddoldeb rhwng merched a dynion sy'n croestorri, gyda gwahaniaethu'n seiliedig ar ethnigrwydd, oedran, dosbarth, rhywioldeb ac anabledd, i effeithio ar brofiadau cam-drin a llwybrau at gefnogaeth.

Fframwaith polisi a deddfwriaethol cenedlaethol

Dylai'r Strategaeth yng Nghymru gael ei hystyried ochr yn ochr â Strategaeth Trais yn erbyn Merched a Genethod Cymru a Lloegr y Swyddfa Gartref⁴, sy'n nodi'r pwysigrwydd o gydnabod cymhlethdod y troseddau hyn, ehangder yr angen a'r pwysigrwydd o sicrhau gwaith cydweithredol cydlynol, i roi stop ar y niwed parhaus. Mae'r rhain hefyd yn berthnasol i'r DU:

- Mae **Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015** yn bwriadu darparu'r offer i frwydro yn erbyn caethwasiaeth fodern, sicrhau y gall cyflawnwyr gael cosbau difrifol addas ar gyfer y troseddau ofnadwy hyn a gwella'r gefnogaeth a'r amddiffyniad ar gyfer dioddefwyr
- **Deddf Trosedd a Diogelwch 2010** - sy'n cyflwyno Gorchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig (DVPOs) a Chynllun Datgelu Trais Domestig (DVDS)
- Mae **Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014** yn ei gwneud yn drosedd i orfodi unrhyw un i briodi
- Mae **Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Merched 2003** ("Deddf 2003") yn cyflwyno Gorchmynion Amddiffyn FGM a dyletswydd adrodd gorfodol am FGM a osodwyd yn Neddf 2003 gan
- **Y Ddeddf Troseddau Difrifol 2015** – sy'n cyflwyno trosedd newydd o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi mewn perthynas agos neu deuluol, dyletswydd adrodd gorfodol FGM a mesurau cryfach i reoli pobl sy'n cyflawni troseddau rhywiol, neu'r rhai sy'n peri niwed rhywiol.

⁴ Strategaeth Rhoi'r Gorau i Drais yn erbyn Merched a Genethod 2016-2020 Llywodraeth EM www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/505961/VAWG_Strategy_2016-2020.pdf a Datganiad Cenedlaethol Disgwyliadau VAWG ar gyfer Cymru a Lloegr (Rhagfyr 2016) - https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/574665/VAWG_National_State ment_of_Expectations_-FINAL.PDF

- **Deddf Diwygio Lles 2012** – Newid cynllun i'r system diogelwch cymdeithasol cyfredol a fydd yn newid y ffordd y mae budd-daliadau lles yn cael eu hawlio a'u talu ledled y DU.

Mae canllawiau a ddylai lywio darpariaeth o'r Strategaeth yn cynnwys:

- Canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) 2014: "Trais a cham-drin domestig: sut y gall gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a'r gwasanaethau maent yn gweithio gyda nhw, ymateb yn effeithiol". Mae'r canllaw hwn, sy'n gymwys ar draws Cymru a Lloegr, yn tynnu sylw at y ffaith bod cam-drin domestig yn fater cymhleth sydd angen ei drin yn sensitif, yn gydweithredol gyda gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol.
- Canllaw statudol FGM a gyhoeddwyd o dan adran 56(1) o Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Merched 2003, ac sy'n ymestyn i Gymru a Lloegr a gwybodaeth weithdrefnol wedi'i diweddaru,⁵ a Chanllaw Statudol Priodas dan Orfod ar gyfer Cymru a Lloegr.
- Canllaw statudol wedi'i ddiweddaru ar gynnal Adolygiadau Dynladdiadau Domestig (DHR). Mae'n ystyried y dirwedd newidiol ac yn cyfeirio at offer newydd sydd wedi'u gweithredu, fel Cynllun Datgelu Trais Domestig a **Gorchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig**, yn ogystal â'r drosedd reoli a gorfodi newydd a gynhwysir yn Neddf Troseddau Difrifol 2015. Mae'r canllaw statudol hwn yn dod gyda chanfyddiadau allweddol a gynhaliwyd gan ymchwilydd y Swyddfa Gartref ar sampl o 40 DHR ledled Cymru a Lloegr, a gwblhawyd rhwng 2013 a 2016.⁶
- Canllaw Cynllun Datgelu Trais Domestig wedi'i ddiweddaru – cyfeirir ato'n aml fel "Cyfraith Clare" – sy'n nodi'r gweithdrefnau y gellid eu defnyddio gan yr heddlu i ddatgelu gwybodaeth am droseddu treisgar a chamdriniol blaenorol unigolyn, lle gall hyn helpu i amddiffyn eu partner, neu gyn-bartner, rhag trais neu gamdriniaeth.
- Mae Datganiad Cenedlaethol o Ddisgwyliadau Cymru a Lloegr 2016 yn nodi beth sydd angen i gomisiynwyr lleol (Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, Awdurdodau Lleol neu gomisiynwyr iechyd) eu rhoi yn eu lle i sicrhau bod eu hymateb i drais yn erbyn merched a genethod yn gydweithredol, yn gadarn ac yn effeithiol.

Yng Nghymru, mae Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, yn anelu at "wella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n rhoi ffocws strategol ac yn sicrhau ystyriaeth gyson o ddulliau ataliol, amddiffynol a chefnogol wrth ddarparu gwasanaethau"⁷. Mae'r Ddeddf yn addo:

- Gwella trefniadau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o drais yn seiliedig ar ryw, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn ogystal â'u hatal, eu hamddiffyn a chefnogi dioddefwyr
- Cyflwyno dull sy'n seiliedig ar anghenion i ddatblygu strategaethau a fydd yn sicrhau cyfeiriad strategol cryf ac atebolrwydd cryfach
- Sicrhau perchnogaeth ar lefel strategol, drwy benodi Ymgynghorydd Gweinidogol a fydd â rôl yn cynghori Gweinidogion Cymru am wella gwaith ar y cyd ymhlith asiantaethau ar draws y sector yma

⁵ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/573782/FGM_Mandatory_Reporting_-_procedural_information_nov16_FINAL.pdf

⁶ <https://www.gov.uk/government/publications/domestic-homicide-review-lessonslearned>

⁷ Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.
www.gov.wales/legislation/programme/assemblybills/domestic-abuse/?lang=en

- Gwella cysondeb, ansawdd a chydlynïad darpariaeth gwasanaeth yng Nghymru.

Mae yna hefyd lawer o ddarnau o bolisiâu a deddfwriaeth Gymreig sy'n effeithio ar atal VAWDASV, ac mae'r amcanion a chymau a nodir yn y Strategaeth hon yn cymryd y rhain i ystyriaeth.

Er enghraifft, mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn anelu at wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ac mae'n cyflwyno saith nod lles, sy'n berthnasol i atal trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chefnogi goroeswyr:

- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang
- Cymru lewyrchus
- Cymru wydn
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru â chymunedau cydlynol
- Cymru â diwylliant bywiog ac iaith sy'n ffynnu

Awgrymodd **astudiaeth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) Cymru**⁸ fod nifer sylweddol o oedolion yng Nghymru wedi profi un neu fwy o ffurfiau ACE, ac yn penderfynu bod darparu cefnogaeth effeithiol ac ymyrraeth gynnar i'r rhai a effeithir gan ACE yn cael effaith tymor hwy ar y galw a'r costau gostyngol i wasanaethau cymdeithasol ac iechyd.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** hefyd yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl (oedolion a phlant), sydd angen gofal a chefnogaeth, gofalmwyr sydd angen cefnogaeth, a thrawsffurfio gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn mynnu bod asesiadau anghenion poblogaeth leol yn llywio datblygiad strategaethau lleol.

Mae **Deddf Tai (Cymru) 2014** – yn corffori mewn deddfwriaeth, rôl yr awdurdod lleol mewn atal a lliniaru digartrefedd. Mae'r Deddf hon yn nodi a yw person neu aelod o aelwyd y person hwnnw mewn risg o gamdriniaeth, yn cynnwys cam-drin domestig, yn ffactor i benderfynu a yw'n rhesymol parhau i fod yn y llety hwnnw.

Mae **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016** yn nodi'r dull newydd i gontractau ar y cyd, a fydd yn helpu goroeswyr drwy alluogi cyflawnwyr i gael eu targedu er mwyn eu troi allan.

Bydd protocolau a gweithdrefnau diogelu cenedlaethol ar gyfer mynd i'r afael ag FGM, priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd, camfanteisio'n rhywiol ar blant a ffurfiau cysylltiedig eraill o VAWDASV hefyd yn berthnasol i ddarpariaeth ranbarthol o'r Strategaeth.

Fframwaith darparu a strategol rhanbarthol

Mae'r Strategaeth hon wedi'i datblygu gan Grŵp Strategol VAWDASV Gogledd Cymru ac asiantaethau partner, ac yn amlinellu sut y bydd sefydliadau yng Ngogledd Cymru'n rhoi sylw

⁸ Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) astudiaeth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) Cymru, ICC


i'w cyfrifoldebau fel y nodwyd gan Ddeddf VAWDASV, a nodir sut y bydd amcanion lleol yn cyfrannu at amcanion cyffredinol Strategol Cenedlaethol VAWDASV.

Mae'r model rhanbarthol wedi'i ffurfio o chwe ardal awdurdod lleol:

- Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam.

Mae'r rhanbarth hefyd yn elwa o gyd-ffinio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a Heddlu Gogledd Cymru.

Mae'r dull rhanbarthol i roi sylw i VAWDASV yn newydd yng Ngogledd Cymru. Mae bwrdd rhanbarthol wedi'i sefydlu gydag is-grwpiau cefnogol ynghylch agweddau allweddol ar y strategaeth.



Mae mynd i'r afael â thrais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn llwyddiannus yn gofyn am ymrwymiad i gynnal a datblygu perthnasau gwaith agos gyda phartneriaid sector cyhoeddus eraill, y llywodraeth a'r sector gwirfoddol. Mae partneriaid yn cynnwys Llywodraeth Leol wrth weithredu eu swyddogaethau amrywiol, fel Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Thai, Byrddau Iechyd Lleol, yr Heddlu, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, y Gwasanaethau Prawf Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, sefydliadau heb eu datganoli a'r fframwaith cenedlaethol o wasanaethau arbenigol annibynnol trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

4. **METHODOLEG**

Cafodd amrywiaeth o ffyrdd eu rhoi yn eu lle i ganiatáu comisiynwyr, partneriaid a darparwyr a goroeswyr i gyfrannu at ddatblygiad y Strategaeth VAWDASV Ranbarthol hon. Rydym wedi cynnal tri gweithdy sy'n caniatáu trafodaeth agored ynghylch darpariaeth ac ariannu VAWDASV ar hyn o bryd yng Ngogledd Cymru, bylchau mewn darpariaeth a chyfleoedd i wella dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r wybodaeth a gafwyd wedi'i defnyddio i ddatblygu'r strategaeth, gan edrych ar anghenion pob dioddefwr a goroeswr ar draws Gogledd Cymru.

I lywio datblygiad o'r strategaeth hon, cyfeiriwyd hefyd at yr adnodd sy'n benodol i Gymru, a gynhyrchwyd gan Sefydliad Banc Lloyds⁹ (Mynd i'r afael â Thrais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Pecyn Gwaith Comisiynu Cydweithredol ar gyfer Gwasanaethau yng Nghymru). Cafodd hwn ei ddatblygu, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, i gydnabod yr amgylchiadau penodol a'r newidiadau i ymatebion trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n digwydd yng Nghymru. Mae'n bwriadu helpu asiantaethau yng Nghymru i gydweithio i ddarparu dull comisiynu effeithiol i sicrhau lles yr holl bobl a effeithir gan drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y dyfodol. Bwriedir y pecyn gwaith ar gyfer

- Arweinwyr strategol a chomisiynwyr cyfredol a'r dyfodol
- Darparwyr gwasanaethau
- Llywodraeth Cymru, i helpu cefnogi camau gweithredu lleol a fydd yn darparu atebion effeithiol
- Eraill gyda rhan yn niogelwch a lles pobl leol

Yn unol â'r canllaw yn y pecyn gwaith, mae'r strategaeth hon wedi'i dylunio i nodi amcanion a chymau a fydd yn atal, amddiffyn a chefnogi'r rhai a effeithir gan VAWDASV. Mae'r Strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol gwasanaethau arbenigol lleol a rhanbarthol sydd wedi datblygu dros amser, fel ymateb i anghenion penodol ac a benderfynir o dan flaenoriaethau arianwyr. Maent yn cynnwys degawdau o wybodaeth ac arbenigedd sy'n berthnasol i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Gallant, mewn rhai achosion, fod yn ymgysylltu â goroeswyr a allai fod y mwyaf amharod i wneud cyswllt â gwasanaethau statudol, ond yn aml yn y risg fwyaf, neu â'r lefel uchaf o anghenion cefnogi.

Mae'r Strategaeth yn anelu at sicrhau nad yw'r ffocws ar ddarparu gwasanaeth yn unig, ond ar amrywiaeth o fesurau i gael gwared ar wahaniaethu, hyrwyddo cydraddoldeb gwirioneddol, ac i rymuso merched a genethod, o fewn fframwaith cynhwysfawr, i amddiffyn a rhoi cymorth i bob dioddefwr.

⁹ https://www.lloydsbankfoundation.org.uk/VAWDASV%20Toolkit_Wales_web.pdf

5. GOROESWYR FEL ARBENIGWYR

Mae'r strategaeth hon yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol cydweithredu gyda goroeswyr VAWDASV. Mae gan wasanaethau arbenigol yn y rhanbarth ffyrdd amrywiol o gynnwys ac ymgysylltu â goroeswyr trais a cham-drin rhywiol, cam-drin domestig, priodas dan orfod, FGM, caethwasiaeth fodern, stelcian ac aflonyddu, a pharheir i geisio safbwyntiau goroeswyr unwaith y bydd darpariaeth o'r Strategaeth yn mynd rhagddi.

I lywio cwblhad o'r strategaeth ranbarthol, mae'r Bwrdd Strategol yn anelu i ddechrau at sicrhau bod blaenoriaethau goroeswyr sy'n cael eu hadlewyrchu yn strategaeth genedlaethol Cymru yn cael sylw ranbarthol:

- I. Gwasanaethau arbenigol ymroddedig ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan y canlynol, neu'n eu profi: gam-drin domestig, trais rhywiol, Anffurfio Organau Cenhedlu Merched (FGM), priodas dan orfod, cam-fanteisio'n rhywiol arnynt neu aflonyddu
- II. Gwasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol i oroeswyr sy'n hygyrch a gydag adnoddau i fodloni anghenion grwpiau goroeswyr penodol, fel oedolion sy'n oroeswyr o ymosodiad rhywiol pan oeddent yn blant.
- III. Gwelliannau mewn arfer llys teulu a Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru (CAFCASS) a chyswllt diogel i blant mewn achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol.
- IV. Cefnogaeth 'gwasanaeth lloches' hygyrch ym mhob ardal, gydag opsiynau tai diogel, fforddiadwy, tymor hir, i ddarparu hyblygrwydd a dewis.
- V. Grwpiau merched a chefnogaeth gan gymheiriaid sy'n lleihau unigrwydd ac yn gwneud y gorau o ofod annibynnol i gynyddu hyder, parch a grymuso.
- VI. Mynediad cyfartal at ddiogelwch, cefnogaeth, amddiffyniad a chyfiawnder, ac arian i fyw'n annibynnol, waeth beth yw statws mewnfudo goroeswyr.
- VII. Gwasanaethau cwnsela a therapiwtig i oroeswyr sydd ar gael yn ôl yr angen ac yn addas i oedran, ac yn helpu i adeiladu gwydnwch ac adferiad.
- VIII. Mwy o ffocws ar atal ymddygiad cyflawnwyr, a lle bo rheolaeth orfodol yn nodwedd, i gael cyflawnwyr i adael a darhod perthnasau camdriniol.
- IX. Gwell hyfforddiant i bob gwasanaeth ar bob agwedd ar drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a lywir gan brofiadau goroeswyr.
- X. Atal trais yn erbyn merched rhag digwydd yn y lle cyntaf, drwy addysg atal orfodol ym mhob ysgol a chodi ymwybyddiaeth o'r materion a'r cymorth sydd ar gael mewn cymunedau lleol.

I sicrhau bod lleisiau a phrofiadau goroeswyr yn parhau i lywio'r polisïau deddfwriaeth cenedlaethol a'r canllaw, bwriad Llywodraeth Cymru yw datblygu fframwaith ymgysylltu â goroeswyr, sy'n genedlaethol ac yn gynaliadwy, i sicrhau bod anghenion a phrofiadau'r goroeswyr sydd fwyaf ymylol, y rhai sy'n wynebu sawl anfantais wrth gael cymorth a chefnogaeth, yn cael eu deall.

6. GWELEDIGAETH AC AMCANION STRATEGOL

Ein gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru:

Bod pobl Gogledd Cymru'n gallu byw bywydau diogel, cyfartal, di-drais, mewn cymunedau heb drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r saith nod lles sydd yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ategu at yr amcanion sydd wedi'u corffori ym mhwrpas thematig allweddol Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, a'r strategaeth gysylltiedig:

- **Atal:** Trefniadau ar gyfer **atal** trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- **Amddiffyn:** Trefniadau ar gyfer **amddiffyn** dioddefwyr trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- **Cefnogi:** Trefniadau ar gyfer **cefnogi** pobl yr effeithir gan drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Felly fe seilir Strategaeth Gogledd Cymru ar y themâu hyn, ac o'r rhain y deillir yr amcanion a'r nodau. Wrth i'r Strategaeth symud yn ei blaen, bydd yn cael ei hadolygu yn erbyn datblygiadau wrth ffurfio'r fframwaith darparu cenedlaethol.

Yn unol â Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn bwriadu cyflawni ar y camau gweithredu yn y strategaeth hon drwy ddefnyddio "egwyddor datblygiad cynaliadwy" a dilyn y ffyrdd cydnabyddedig o weithio, i sicrhau ein bod yn gweithio'n gydweithredol gyda phobl a chymunedau, ac yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau tymor hir rydym yn eu hwynebu.

Yn unol â hyn, byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- **Atal:** Camau sy'n atal problemau rhag digwydd neu waethygu
- **Integreiddio:** Ystyried sut mae'r amcanion trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio ar bob un o'r nodau lles, ac ar amcanion a blaenoriaethau strategaethau gwasanaethau statudol allweddol eraill.
- **Cydweithredu:** Gweithio'n gydweithredol gyda phartneriaid a budd-ddeiliaid i sicrhau bod camau gweithredu, amcanion a thargedau'r strategaeth hon yn cael eu diwallu drwy aelodaeth y Bwrdd Strategol
- **Cynnwys:** Byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu ac yn cynnwys y bobl gywir ar yr adeg gywir.
- **Tymor Hir:** Byddwn yn gweithredu ar gomisiynu rhanbarthol a gweithrediad model ariannu cynaliadwy cytûn yn bragmatig, ac yn sicrhau bod anghenion tymor byr y goroeswyr yn parhau i gael eu diwallu, tra cynhelir unrhyw ail-gyflunio tymor hwy

Byddwn hefyd yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu **hintegreiddio'n** effeithiol o ran y rheolaeth a'r ddarpariaeth effeithiol o wasanaethau arbenigol trais yn erbyn Merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel y gall buddiolwyr gwasanaeth dderbyn continwwm o wasanaethau ataliol, diogel a chefnogol, yn unol â'u hanghenion sy'n gyson ledled y rhanbarth.

Amcanion Strategol Gogledd Cymru:

Atal

Amcan 1: Mwy o ymwybyddiaeth a herio agweddau o drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Gogledd Cymru.

Amcan 2: Mwy o ymwybyddiaeth mewn plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasau diogel, cyfartal ac iach, a bod ymddygiad treisgar yn anghywir bob amser.

Amddiffyn

Amcan 3: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif a rhoi cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch dioddefwyr.

Amcan 4: Gwneud ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth.

Darparu cefnogaeth

Amcan 5: Mae gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael hyfforddiant i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol ac addas i ddioddefwyr a goroeswyr.

Amcan 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau gydag adnoddau addas, sydd o ansawdd uchel, dan arweiniad anghenion, yn seiliedig ar gryfderau, sy'n ymateb i rywedd, ar draws Gogledd Cymru

Mae Bwrdd Partneriaeth Strategol VAWDASV yn ymroddedig i atal pob ffurf o drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gwella gwasanaethau i oroeswyr a sicrhau bod cefnogaeth tymor hir ar gael i bawb yr effeithir arnynt, waeth bynnag lle maent yn byw.

Mae'r Bwrdd yn credu mewn cydweithio i roi sylw i bob maes o'r rhaglen VAWDASV. Mae'r strategaeth VAWDAS wedi'i datblygu gan ddefnyddio'r themâu sy'n trawstorri, sy'n rhedeg drwy ystod o gynlluniau strategol cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol, sy'n cynnwys Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, y Byrddau Diogelu rhanbarthol, Cefnogi Pobl, Heddlu Gogledd Cymru a'r Swyddfa Gartref, y Strategaethau Digartrefedd Lleol, yn ogystal â Strategaeth Genedlaethol VAWDASV.

Dyma rai o'r prif feysydd o gysondeb ar draws y strategaethau amrywiol:

- 1) Gostyngiad ym mynychder pob ffurf o drais yn erbyn merched a genethod. (*Swyddfa Gartref – Strategaeth Trais yn erbyn Merched a Genethod 2016-20*)
- 2) Ffocws ar ymyrryd ac atal yn gynharach, fel bod llai o ferched yn cyrraedd pwynt o argyfwng a bod pob dioddefwr yn cael y gefnogaeth y mae hi ei hangen (*Swyddfa Gartref – Strategaeth Trais yn erbyn Merched a Genethod 2016-20*)
- 3) Gwneud y broses o ddatgelu mor uniongyrchol a diogel â phosibl. (*Cynllun Heddlu a Throsedd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2017-21*)
- 4) Yr angen i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth i leihau niwed. (*Cynllun Heddlu a Throsedd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2017-21*)
- 5) Yr angen am ddull cydlynol mewn cynllunio strategol a chyfeiriad ar gyfer gwaith VAWDASV. (*Cynllun Strategol Rhanbarthol Cefnogi Pobl Gogledd Cymru 2017*)

Bydd ein hamcanion yn Strategaeth VAWDASV Gogledd Cymru 2017-22 yn adlewyrchu'r chwe amcan o dan y strategaeth genedlaethol, ond bydd yn dal â ffocws rhanbarthol a lleol i adnabod anghenion pobl leol Gogledd Cymru'n benodol, ac ymgorffori themâu strategol ein partneriaid rhanbarthol, sy'n trawstorri.

Comisiynu

Bwriad y Strategaeth hon yw llywio datblygiad a darpariaeth y strategaeth comisiynu rhanbarthol, felly mae'n bwysig ystyried yr egwyddorion comisiynu allweddol a'r gyrwyr o ran darparu'r amcanion strategol sydd yn y strategaeth hon.

I ddarparu marchnad gymysg o wasanaethau cefnogi ar gyfer goroeswyr trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae'n hanfodol ystyried y dull i'w gymryd yn ystod cam cynnar, a'r egwyddorion a fydd yn llywio'r gwaith o gomisiynu. Bydd ein hegwyddorion comisiynu'n cael ei lywio gan 10 egwyddor caffael Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru¹⁰, a'r canllaw comisiynu statudol sydd ar y gweill, sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru.

Bydd egwyddorion comisiynu hefyd yn cael ei llywio gan:

- y data a'r wybodaeth sydd yn y strategaeth hon, i lywio ein ffordd o feddwl wrth ddatblygu strategaeth gomisiynu ranbarthol
- datblygu manylion sy'n ystyried y ddarpariaeth o'n 6 amcan strategol ar gyfer gwasanaeth trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Darparu sefydlogrwydd i'r sector gwasanaethau arbenigol o ran parhad y contract(au) a chyllid ar gyfer oes y contract gwasanaethau trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Gweithio ar y cyd gyda'n partneriaid a budd-ddeiliaid o fewn y sector trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a sectorau cysylltiedig eraill wrth ddatblygu a chomisiynu marchnad gymysg, gan adeiladu ar arbenigedd lleol a rhanbarthol yn y gymuned, sydd eisoes yn cael eu dal gan wasanaethau arbenigol.

¹⁰ Polisi Caffael Cymru Llywodraeth Cymru 2015:

7. ASESIAD ANGHENION

Mae'r asesiad anghenion VAWDASV ar gael (a gyhoeddir ar wahân) ac wedi llywio cynhyrchiad y Strategaeth hon. Rhoddir crynodeb yma er mwyn ei gwneud yn haws cyfeirio atynt.

Mae'r fethodoleg wedi'i llywio gan Mynd i'r afael â Thrais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Pecyn Gwaith Comisiynu Cydweithredol ar gyfer Gwasanaethau yng Nghymru, a gyhoeddwyd gan Sefydliad Banc Lloyds yn Awst 2016, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r Pecyn Gwaith yn cynnwys cyngor a rhestr gwirio i ddatblygu asesiad anghenion ar gyfer VAWDASV.

Mae Asesiad Anghenion Gogledd Cymru'n rhoi darlun o'r ddarpariaeth gwasanaeth gyfredol a'r galw hysbys, drwy ddefnyddio data 2016/17 a'r dadansoddiad presennol. Lle nodwyd bylchau, mae ystadegau ac ymchwil cenedlaethol wedi'u defnyddio i lywio'r strategaeth neu allosod gofyniad posibl.

Mae cysylltiadau â'r asesiad anghenion poblogaeth sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi'u gwneud i sicrhau eu bod yn gyflenwol ac yn llawn gwybodaeth.

Yn ogystal, mae amodau allanol hysbys wedi'u nodi, a all effeithio ar ganlyniad yr angen a nodwyd yng Ngogledd Cymru.

Mae'r data cychwynnol a gasglwyd yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol 2016-17 oni nodir yn wahanol.

Fe wnaeth Gwasanaethau arbenigol VAWDASV a gomisiynwyd i ddarparu cefnogaeth ar draws y rhanbarth ddarparu data drwy Gymorth Merched Cymru. Gofynnwyd am gwestiynau ychwanegol ynghylch capasiti gan bob un o'r gwasanaethau arbenigol, ynghyd â cheisiadau am unrhyw ddata sydd ar goll. Cafodd gwasanaethau pellach (gan gynnwys gwasanaethau statudol a thrydydd sector eraill) e-bost gyda chais am ddata galw sylfaenol a chapasiti, y gellir ei ddefnyddio fel sail sy'n dangos tystiolaeth am angen yng Ngogledd Cymru. I gydymffurfio â Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, gofynnwyd i wasanaethau ddarparu data nid yn unig ar drais rhywiol a cham-drin domestig, ond bob ffurf o gamdriniaeth sydd yn y Ddeddf, er mwyn penderfynu a oedd yna unrhyw fylchau mewn darpariaeth ar gyfer materion penodol. I gasglu adborth budd-ddeiliaid ar y data sy'n dod i'r amlwg, cafodd gweithdai eu cynnal gyda chomisiynwyr, darparwyr arbenigol a phartneriaid. Mae'r canfyddiadau o'r rhain hefyd wedi cyfrannu at yr asesiad a'r strategaeth hon.

Mae data cenedlaethol a phapurau ymchwil wedi'u dadansoddi i gefnogi a llywio'r data rhanbarthol. Mae'r data hwn wedi'i ddefnyddio fel sail ar gyfer casglu gwybodaeth bellach gyda gweithgareddau ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid.

Canfyddiadau allweddol o Asesiad Anghenion VAWDASV Gogledd Cymru 2017

- 1) **'Loteri cod post'** – Mae darpariaeth wedi'i datblygu'n hanesyddol yn ôl argaeledd arian, sydd wedi arwain at 'loteri cod post' o argaeledd gwasanaethau. Mae newidiadau mewn deddfwriaeth yng Nghymru'n cynyddu nifer y goroeswyr o ddioddefwyr VAWDASV a nodwyd, sydd angen cefnogaeth ac amddiffyniad.

- 2) **Ariannu** – Mae datgeliadau'n cynyddu ar adeg pan mae eu cyllid yn lleihau. Mae'n hanfodol bod Gogledd Cymru'n gallu adnabod yr ardaloedd hynny lle mae diffyg darpariaeth (ac o bosibl lle mae angen i fodolau gwasanaeth a gomisiynwyd newid), i gynhyrchu gwell canlyniadau i oroeswyr ac anelu ei ymdrechion at nodi lle gall mwy o ffocws wneud y gwelliannau mwyaf.
- 3) Mwy o ffocws ar ymyrraeth ac atal yn gynnar, fel bod llai o achosion yn dwysáu i bwynt argyfwng, yn ogystal â mwy o ffocws ar roi sylw i ymddygiad camdriniol.
- 4) **Trosedd** – Mae gan ddulliau aml-asiantaeth a rhannu gwybodaeth gwell y potensial i gynorthwyo'r Heddlu i gael mwy o waith adrodd ac erlyniadau llwyddiannus mewn troseddau sy'n gysylltiedig â VAWDASV. Bydd gwelliannau mewn rhannu gwybodaeth addas (yn cynnwys y rhai nad ydynt yn cael eu hystyried yn risg uchel ar hyn o bryd), hefyd yn helpu mynediad at wasanaethau arbenigol ac yn lleihau swm yr achosion, yn cynnwys adroddiadau sy'n codi dro ar ôl tro, y mae Heddlu Gogledd Cymru'n delio â nhw ar hyn o bryd.
- 5) **Tai** – Lle dymunir y goroeswyr wneud hynny, a lle mae'n ddiogel gwneud hynny, dylent gael cefnogaeth i aros yn eu cartrefi eu hunain. Bydd hyn yn cynorthwyo gyda sicrhau nad yw llefydd mewn lloches yn cael eu llenwi gan y rhai nad ydynt angen neu eisiau bod yna, a lleihau dwyster y gefnogaeth ofynnol, sy'n gysylltiedig â symud tŷ a cholli rhwydweithiau cefnogaeth gymunedol. Nid yw gwella diogelwch ar gael ar hyn o bryd ym mhob sir yng Ngogledd Cymru, felly mae angen i'n strategaeth roi sylw ar sut y caiff hyn ei oresgyn.
- 6) **Iechyd** – Mae angen cofnodi pob lefel o risg fel mater o drefn, er mwyn adlewyrchu lefelau angen yn effeithiol a darparu llwybr gofal at y rhai hynny a effeithir gan VAWDASV. Mae cyllid iechyd mewn perthynas â VAWDASV yn cael ei gyfeirio'n bennaf at ariannu gwasanaethau trais rhywiol yn gyffredinol, sydd wedi gweld cynnydd amlwg mewn rhestrau aros ar gyfer cefnogaeth mewn blynyddoedd diweddar. Mae angen rhoi ystyriaeth ynghylch lle mae iechyd yn gallu buddsoddi mewn meysydd o atal, ymyrraeth gynnar, cefnogaeth ac amddiffyn a fydd yn cynorthwyo gyda lleihau nifer y cyflwyniadau mewn gosodiadau iechyd.
- 7) **Diogelu** – Nid yw cofnodi ar hyn o bryd yn adlewyrchu lefelau angen y rhai hynny sy'n profi VAWDASV yn ddigonol. Mae angen gwaith i sicrhau bod cofnodi, rhannu gwybodaeth yn ddiogel a llwybrau gofal yn cael eu datblygu a'u cryfhau i ddarparu gwasanaeth di-dor i oroeswyr.
- 8) **Hyfforddiant** – Mae'r mwyafrif o hyfforddiant yn cael ei gynnig gan y 3ydd Sector, fel ewyllys da a heb arian penodol. Bydd cyflwyniad y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn cynyddu'r pwysau'n sylweddol ar y gwasanaethau hyn.
- 9) **Gwasanaethau Trydydd Sector Arbenigol** – Mae'r cynnydd yn y galw am gefnogaeth a'r gostyngiad mewn cyllid sydd ar gael wedi golygu nad yw'r gwasanaethau hyn wedi gallu darparu'r amrywiaeth o wasanaethau 'ewyllys da' roeddent yn eu rhoi mewn rhai achosion yn flaenorol, fel hyfforddiant am ddim ac ymgyrchoedd a digwyddiadau codi ymwybyddiaeth; rhaglenni adfer heb eu hariannu; cefnogaeth benodol ar gyfer plant mewn lloches a lleoliadau cymunedol (h.y. cefnogaeth ar gyfer yr amrediad llawn o anghenion cefnogaeth a gyflwynir gan blant, na ellir eu darparu drwy ariannu lloches SPPG, ac mewn achosion lle nad oes unrhyw gyllid ychwanegol ar gael i ddarparu hyn); gwasanaethau galw heibio; a chefnogaeth i'r rhai hynny heb unrhyw atebolrwydd i gyllid cyhoeddus.

- 10) **Gweithio gyda Chyflawnwyr** – Rhaid ystyried pa raglenni sydd ar gael yn y DU sy'n darparu'r canlyniadau wedi'u gwella fwyaf i deuluoedd, a sut y gellir darparu'r rhain yn effeithiol ar draws Gogledd Cymru.
- 11) **Codi Ymwybyddiaeth** - Rhaid rhoi ystyriaeth i hwyluso'r cyfleoedd presennol ac adnoddau i adeiladu ar hyn ar gyfer y dyfodol. Dylai hyn gynnwys archwiliad o ba ddulliau darparu fydd yn gwella hyder y cyhoedd i wybodaeth lle i fynd gyda'r wybodaeth, a lle bydd codi ymwybyddiaeth yn cynhyrchu'r gwelliannau gorau o ran deall beth sy'n berthynas iach a beth sy'n gamdriniol.
- 12) **Ariannu** – Yn hanesyddol mae cyllid sydd wedi bod ar gael i roi sylw i VAWDASV wedi'i ddatblygu ar sail ad-hoc. Dylai mwy o gydweithredu a gwasanaethau a gomisiynir yn rhanbarthol yn hytrach na lleol alluogi mwy o gynllunio a datblygiad gwasanaethau.
- 13) **Ymgysylltu â Goroewyr** – Mae angen ystyried sut y gall goroewyr chwarae rhan weithredol wrth wneud penderfyniad ynghylch darparu gwasanaethau yng Ngogledd Cymru.

Canfyddiadau allweddol o'r ymgysylltiad â'r ymgynghoriad:

Meysydd o arfer da cyfredol a nodwyd yn ystod y gweithdai:

- 1) Mae yna lawer o arbenigedd a gwybodaeth yng Ngogledd Cymru, ac mae rhai gwasanaethau arbenigol yn Safonau o Ansawdd Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru (a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig), Safonau Argyfwng Trais, a Safon Parch ar gyfer ymyrraeth cyflawnwyr a gwaith diogelwch partneriaid.
- 2) Mae yna ethos cryf eisoes o waith partneriaeth, ond mae modd gwella hwn
- 3) Mae darparwyr arbenigol yn gweithio gydag ysgolion, colegau a chanolfannau pobl ifanc, i wella ymatebion i drais rhywiol.
- 4) Mae darparwyr arbenigol yn aml yn gweithio fel adnodd gwerthfawr a chanolbwynt gwybodaeth ar gyfer asiantaethau eraill.
- 5) Mae darparwyr arbenigol yn aml yn darparu gweithdai heb eu hariannu a rhaglenni ymyrraeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, i helpu i alluogi adferiad tymor hwy; caiff ei gydnabod nad ydyw'n fodel darparu cynaliadwy.
- 6) Mae yna fwy o adnoddau ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd yn y rhaglenni lloches ac allgymorth ar draws y rhanbarth.
- 7) Mae gwaith yn mynd rhagddo i adeiladu llwybrau atgyfeirio cryf rhwng gwasanaethau arbenigol, gwasanaethau cymdeithasol, BIPBC a Heddlu Gogledd Cymru, ar gyfer goroewyr wedi'u hasesu fel 'risg uchel' ac achosion arbenigol.
- 8) Mae'r rhanbarth yn elwa o wasanaethau arbenigol dan arweiniad merched, ac ar eu cyfer, a gan ferched sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, ac ar eu cyfer. Wrth wneud hynny, mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofod diogel i ddarparu cefnogaeth sydd gyda merched yn ganolog, drwy werthoedd grymuso, hawliau a hunan-benderfyniad. Mae pwysigrwydd gwasanaethau gan ferched sydd o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, ac ar eu cyfer, yr un mor hanfodol, i gynnig cefnogaeth sy'n ymateb i ddiwylliant a rhywedd, gofod i nodi blaenoriaethau a chryfhau a hyrwyddo'r arweinyddiaeth, yr ymreolaeth a hunan-benderfyniad gan ferched o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod y gweithdai:

- 1) Mae angen i gomisiynwyr weithio'n fwy agos gyda darparwyr gwasanaeth arbenigol a defnyddwyr gwasanaeth, i ddeall y rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau a chyd-gynhyrchu'r dulliau mwyaf effeithiol i leihau'r rhwystrau a galluogi mynediad mwy cyfartal at gefnogaeth.
- 2) Mae gwaith cydweithredol yn hanfodol, gan fod darparwyr gwasanaeth llai mewn perygl o beidio â gallu cyfrnogi'n gyfartal mewn prosesau caffael.
- 3) Mae sefyllfa gyfredol ariannu tameidiog yn golygu sawl cyfrifoldeb cofnodi/monitro/adrodd ar gyfer darparwyr gwasanaeth arbenigol VAWDASV.
- 4) Dim cysondeb o ran darpariaeth ar draws y rhanbarth. Mae cael mynediad at wasanaethau'n dod yn loteri cod post, oherwydd ariannu tymor byr ac 'ar wahân'.
- 5) Er mwyn i wasanaethau VAWDASV arbenigol fod yn gynaliadwy, mae angen i ni ystyried sut y mae'r cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn am gael eu rhoi dros gyfnod cytûn hirach, er mwyn i wasanaethau arbenigol allu cynllunio ar gyfer y dyfodol, ac felly i ddarparu gwasanaethau hyblyg, ymatebol, sy'n seiliedig ar yr hyn y mae goroeswyr eu hangen. Yn enwedig, mae angen i ni ystyried gwella lefelau o gefnogaeth arbenigol ar gyfer plant sydd wedi'u heffeithio gan gamdriniaeth.
- 6) Mae darpariaeth gyfredol yn aml yn cael ei harwain gan gyllidwyr a gwasanaeth, yn hytrach na gan oroeswyr – mae comisiynwyr yn rhanbarthol angen mwy o bwyslais ar y goroeswyr.
- 7) Lle mae trais a chamdriniaeth yn effeithio ar amrediad o aelodau teuluol (fel dioddefwyr neu gyflawnwyr), mae angen darpariaeth ar wahân ddiogel fel y gall pob aelod o'r teulu gael cefnogaeth i wneud y gorau o'u diogelwch, newid ymddygiad camdriniol a chefnogi plant sydd wedi'u heffeithio gan gamdriniaeth.

Mae'r adborth, syniadau a gwybodaeth o'r gweithdai, yn ogystal â'r data a gyrchwyd ar gyfer yr Asesiad Anghenion, wedi helpu i siapia'r Cynllun Amcanion a Gweithredu am y pum mlynedd nesaf.

8. GWASANAETHAU A MAPIO ADNODDAU

Mae gwasanaethau Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn dod o fewn y sectorau statudol a 3ydd sector yng Ngogledd Cymru. Mae'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, tai, addysg, partneriaethau diogelwch cymunedol ac iechyd i gyd â dyletswyddau statudol i ddarparu meysydd penodol o gefnogaeth, ond mae hyn yn cael ei wella'n sylweddol gan y gwasanaethau arbenigol a ddarperir ar draws y rhanbarth, drwy'r 3ydd sector. Maent yn rhoi arbenigedd a gwybodaeth sy'n cael eu hariannu drwy amrediad eang o grantiau ac ymddiriedolaethau elusennol.

Mae ariannu ar gyfer gwaith VAWDASV ar draws Gogledd Cymru'n cael ei ddarparu i raddau helaeth gan grant Cefnogi Pobl, sy'n ariannu pob darpariaeth lloches, yn ogystal â rhai gwasanaethau atal a gwaith arall gyda dioddefwyr risg uchel o gam-drin domestig. Mae ardaloedd ariannu Awdurdod Lleol eraill, fel Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai'n cyfrannu swm sylweddol, fel y mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru a'r Bwrdd Cynllunio Ardal. Mae Grant Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru (y Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig gynt), wedi'i ddosbarthu'n hanesyddol gan y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Lleol, mae disgwyl i'r grant hwn ddod yn adnodd rhanbarthol o Ebrill 2018. Drwy gydweithio i gomisiynu'r adnoddau hyn ar y cyd fel rhanbarth, bydd Gogledd Cymru mewn sefyllfa llawer gwell i ddiwallu anghenion holl ddioddefwyr a goroeswyr VAWDASV. Mae gwasanaethau fel MARAC, IDVA/ISVA a Gwella Diogelwch, wedi'u hariannu ers amser maith gan gyfraniadau o amrediad o'r grantiau hyn yn ogystal â chyllid craidd a roddir i awdurdodau lleol, iechyd a'r heddlu.

Mae yna nifer o wasanaethau arbenigol 3ydd sector yn gweithio gyda dioddefwyr a goroeswyr Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar draws Gogledd Cymru, gyda rhai'n gweithio'n lleol ac eraill yn cwmpasu'r rhanbarth cyfan. Mae'r rhestr isod yn dangos prif ddarparwyr o'r ddarpariaeth VAWDASV arbenigol, er nid yw hon yn rhestr gynhwysol oherwydd gall rhai elusennau llai gefnogi pobl ddiamddiffyn gydag amrediad o faterion, yn cynnwys VAWDASV.

- 1) Cymorth i Ferched Cymru Wrecsam
- 2) Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig
- 3) Cymorth i Ferched Cymdeithas Tai Clwyd Alun
- 4) Gwasanaethau Cam-drin Domestig Glyndŵr
- 5) Gwasanaethau Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych
- 6) Canolfan Merched Gogledd Cymru
- 7) Cymorth i Ferched Cymru Colwyn
- 8) Gorwel
- 9) Cymorth i Ferched Bangor
- 10) Canolfan Gwasanaeth Trais ac Ymosodiadau Rhywiol

11) Cam wrth Gam

12) SARC

13) BAWSO

14) Cefnogaeth i Ddiodefwyr

15) Hafan Cymru

Mae'r sector arbenigol wedi datblygu mewn ymateb i argaeledd cyllid ac angen dros nifer o flynyddoedd, a thra bod gwasanaethau'n gallu cynnig cefnogaeth a gwaith tebyg gyda defnyddwyr gwasanaeth tebyg, mae gwahaniaethau lleol mewn darpariaeth.

9. **DEILLIANNAU**

Mae'r adran hon yn manylu sut y bydd Bwrdd VAWDASV Gogledd Cymru, darparwyr gwasanaethau a chymunedau lleol yn cydweithredu i ddarparu'r amcanion strategol.

Mae'r camau gweithredu i gyflawni'r amcanion, ynghyd â'r mesurau gwerthuso ac effaith, wedi'u manylu yn y cynllun gweithredu (gweler isod).

Os yw'r Strategaeth hon yn llwyddiannus, a bod asiantaethau partner yn cydweithredu'n effeithiol i fodloni'r amcanion a ddymunir, dylid creu'r newid cadarnhaol canlynol, i oroeswyr, comisiynwyr, darparwyr gwasanaeth a chymunedau lleol.

Amcan 1: Mwy o ymwybyddiaeth a herio agweddau o drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Gogledd Cymru.

Fel **goroeswr** mae hyn yn golygu:

- Mwy o ddealltwriaeth o effaith trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn cynnwys yr effeithiau tymor hir y mae'n gallu ei gael arnyn nhw a'u teulu.

Fel **comisiynydd** mae hyn yn golygu:

- Mwy o waith effeithiol gyda phartneriaid a strwythurau rhanbarthol eraill, i sicrhau bod agweddau heriol tuag at VAWDASV yn parhau o fewn pob cam cynllunio strategol integredig.

Fel **darparwr gwasanaeth** mae hyn yn golygu:

- Gwaith cydweithredol gwell i ddangos dull cryf, cydlynol i godi ymwybyddiaeth a herio agweddau o ran anghydraddoldeb rhywedd a VAWDASV.

Fel aelod o'r **gymuned** mae hyn yn golygu:

- Mwy o ddealltwriaeth o effaith trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a gwybod lle i gyfeirio ffrindiau/cydweithwyr/aelodau teuluol os ydynt angen cefnogaeth.

Fel **plentyn** mae hyn yn golygu:

- Mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o effaith trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a lle i gael mynediad at gefnogaeth os oes angen.

Amcan 2: Mwy o ymwybyddiaeth mewn plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasau diogel, cyfartal ac iach, a bod ymddygiad treisgar yn anghywir bob amser.

Fel **goroeswr** mae hyn yn golygu:

- Gwell dealltwriaeth o beth sy'n gwneud perthynas ddiogel, gyfartal ac iach.

Fel **comisiynydd** mae hyn yn golygu:

- Sicrhau bod cefnogaeth gynaliadwy a thymor hir yn cael ei rhoi i weithio gyda phlant a phobl ifanc i hyrwyddo perthnasau iach a diogel.

Fel **darparwr gwasanaeth** mae hyn yn golygu:

- Datblygu a darparu rhaglenni ymwybyddiaeth ac sy'n addas i oedran, ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n canolbwyntio ar adeiladu perthnasau cryf, cyfartal ac iach.

Fel aelod o'r **gymuned** mae hyn yn golygu:

- Gwybod bod plant yn dysgu i ddatblygu perthnasau iach, cyfartal a diogel yn y tymor hir.

Fel **plentyn** mae hyn yn golygu:

- Mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o beth sy'n gyfystyr â pherthynas nad ydyw'n iach, a lle i gael cefnogaeth os oes angen.

Amcan 3: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif a rhoi cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch dioddefwyr

Fel **goroeswr** mae hyn yn golygu:

- Gwybod bod ganddynt y gefnogaeth y maent ei hangen i ymgysylltu â'r system gyfiawnder droseddol os yw'n addas, ac y gallwch ymddiried bod eu diogelwch, a diogelwch eu teulu, yn flaenoriaeth i bob asiantaeth sy'n chwarae rhan.

Fel **comisiynydd** mae hyn yn golygu:

- Sicrhau bod y rhaglen a'r ymyriadau unigol a gomisiynir yn cael eu darparu o fewn fframweithiau achredu cydnabyddedig a rhoi sylw digonol i'r angen i newid ymddygiad/rheoli risg hefyd.

Fel **darparwr gwasanaeth** mae hyn yn golygu:

- Darparu rhaglen gadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyflawnwyr, gan roi'r cyfle iddynt ddeall effaith eu gweithredoedd ac edrych ar ddewisiadau amgen i drais.

Fel **aelod o'r gymuned** mae hyn yn golygu:

- Gwybod bod cyflawnwyr trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu dwyn i gyfrif yn iawn, a bod teuluoedd yn cael eu diogelu rhag niwed a rhagor o drallod.

Fel **plentyn** mae hyn yn golygu:

- Gwybod eu bod a'r gefnogaeth y maent ei hangen os yw eu teulu'n cael eu heffeithio gan drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac y byddant yn cael eu cadw'n ddiogel tra bod aelodau teuluol yn ymgysylltu â gwasanaethau addas.

Amcan 4: Gwneud ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth

Fel **goroeswr** mae hyn yn golygu:

- Gwybod pwy i droi atynt am gefnogaeth yn syth, a chael y cymorth y maent ei angen gan bob asiantaeth yn brydlon.

Fel **comisiynydd** mae hyn yn golygu:

- Rhoi adnoddau i bartneriaid gydweithio i wneud y gorau o argaeledd pwyntiau datgelu'n fuan a diogel, a darparu pecyn cyfan o wasanaethau codi ymwybyddiaeth ac ataliol, a fydd yn targedu pob aelod o'r gymuned.

Fel **darparwr gwasanaeth** mae hyn yn golygu:

- Gweithredu 'gofyn a gweithredu' effeithiol, fel bod gwasanaethau cyhoeddus yn sicrhau bod VAWDASV yn cael ei nodi ar y cyfle cynharaf, a'u bod â'r hyfforddiant addas i roi sylw i unrhyw ddatgeliadau ac ymateb/cyfeirio at wasanaethau arbenigol addas.

Fel **aelod o'r gymuned** mae hyn yn golygu:

- Deall VAWDASV a lle i gael gafael ar gefnogaeth a chynghor ar gyfer ffrindiau/cydweithwyr/aelodau teuluol

Fel **plentyn** mae hyn yn golygu:

- Gwybod pwy i droi atynt am gefnogaeth ar unwaith, gwybodaeth a chynghor.

Amcan 5: Mae gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael hyfforddiant i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol ac addas i ddioddefwyr a goroeswyr

Fel **goroeswr** mae hyn yn golygu:

- Gwybodaeth y byddant yn cael cefnogaeth addas ac amserol, waeth pa asiantaeth maent yn cysylltu â nhw.

Fel **comisiynydd** mae hyn yn golygu:

- Sicrhau bod pob partner sy'n gweithio mewn cymunedau a gyda'r cyhoedd, yn ogystal â darparwyr arbenigol, yn cael hyfforddiant i lefel addas i ddarparu cefnogaeth i ddioddefwyr a goroeswyr VAWDASV.

Fel **darparwr gwasanaeth** mae hyn yn golygu:

- Sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant addas i weithio gyda phob dioddefwr a goroeswr o VAWDASV, gan gydnabod y bydd llawer ohonynt gyda sawl anfantais ac anghenion cefnogi.

Fel **aelod o'r gymuned** mae hyn yn golygu:

- Gwybod, pe byddent yn cysylltu â gweithiwr proffesiynol am gefnogaeth a chynghor, y bydd hyn yn gyson, yn gywir ac yn addas ar gyfer eu sefyllfa.

Fel **plentyn** mae hyn yn golygu:

- Bod pobl brofiadol a hyfforddedig ar gael bob amser i'w cefnogi.

Amcan 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau gydag adnoddau addas, sydd o ansawdd uchel, dan arweiniad anghenion, yn seiliedig ar gryfderau, sy'n ymateb i rywedd, ar draws Cymru

Fel **goroeswr** mae hyn yn golygu:

- Gallu cael gafael ar wasanaethau cefnogi addas, sydd o ansawdd uchel ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n diwallu eu hanghenion ac yn adeiladu ar eu cryfderau er mwyn cynyddu eu hiechyd a'u lles, i wneud y gorau o'u diogelwch, a gwella eu gwybodaeth am hawliau, waeth beth yw natur y gefnogaeth neu eu hanghenion cefnogi, neu ym mhle yng Ngogledd Cymru maent wedi'u lleoli.

Fel **comisiynydd** mae hyn yn golygu:

- Sicrhau bod adnoddau ar gyfer gwasanaethau cefnogi arbenigol i gael achrediad a bod yn hygyrch, ar sail rhywedd, wedi'i lywio gan drawma ac yn diwallu anghenion, waeth lle yng Ngogledd Cymru maent wedi'u lleoli.

Fel **darparwr gwasanaeth** mae hyn yn golygu:

- Datblygu a darparu cefnogaeth hygyrch dan arweiniad anghenion, yn seiliedig ar gryfderau, wedi'i llywio gan drawma, ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ar gyfer dioddefwyr VAWDASV ar draws Gogledd Cymru i gyd.

Fel **aelod o'r gymuned** mae hyn yn golygu:

- Gwybod lle bynnag y bônt yn byw yng Ngogledd Cymru, y gallant gael mynediad at yr un lefel o gefnogaeth a chynghor.

Fel **plentyn** mae hyn yn golygu:

- Cael yr un cyfleoedd am gefnogaeth, gwybodaeth a chynghor, waeth lle maent yn byw yng Ngogledd Cymru.

Bydd y deilliannau/dangosyddion hyn yn cael eu hadolygu'n amodol ar ddatblygiad Llywodraeth Cymru o Ddangosyddion Cenedlaethol VAWDASV

10. CYNLLUN GWEITHREDU ac AMSERLEN

O dan y 6 amcan strategol ac wedi'u llywio gan yr asesiad anghenion, mapio gwasanaeth ac adnoddau, a'r canlyniadau i'w cyflawni, bydd y camau gweithredu canlynol a nodwyd yn cael eu blaenoriaethau ar draws y rhanbarth.

Ymhelaethir ar y rhain i gynnwys “Mesur o'r Effaith”. Yn y cyd-destun hwn, mesur o'r effaith yw'r mesur o lwyddiant, a gall y bwrdd reoli cynnydd a pherfformiad y strategaeth drwy'r mesurau hyn.

Mae'r cynllun hwn hefyd yn egluro'r rhyng—gysylltiadau gyda'r amcanion Caethwasiaeth Fodern yng Ngogledd Cymru, a bydd y Cadeirydd Caethwasiaeth Fodern yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Strategol VAWDASV. Mae hyn yn hanfodol gan fod Strategaeth VAWDASV Genedlaethol Cymru wedi cydnabod, i gyflawni amcanion Cymru, bod yn rhaid i gamau rhanbarthol "gael eu llywio gan dystiolaeth fyd-eang a chenedlaethol bod merched a genethod yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan drais a thrais rhywiol, cam-drin domestig, camfanteisio'n rhywiol ar unigolion (yn cynnwys drwy'r diwydiant rhyw), **caethwasiaeth** fodern, priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu merched, cam-drin plant yn rhywiol, stelcian ac aflonyddu rhywiol.”

AMCAN	CAMAU GWEITHREDU	MESUR O'R EFFAITH
AMCAN 1: Mwy o ymwybyddiaeth a herio agweddau trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Gogledd Cymru		
Defnyddio'r adnoddau sydd ar gael, gan roi gwybodaeth am VAWDASV y gellir ei hyrwyddo ym mhob man cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar bob maes o VAWDASV ac ar gael mewn amrediad o ieithoedd sy'n cael eu defnyddio'n lleol. (Byw Heb Ofn)	Cysylltu gyda'r agenda caethwasiaeth fodern a masnachu pobl, i sicrhau bod adnodd cenedlaethol ar gael mewn ieithoedd lleol ac yn ymgorffori pob elfen o'r rhaglen VAWDASV.	Adnoddau Byw Heb Ofn ar gael ar draws Gogledd Cymru – mesur y defnydd o'r adnoddau
	Gweithio gyda chyflogwyr sector preifat i gydnabod eu cyfrifoldebau corfforaethol, yn enwedig mewn sectorau penodol (gwestai a bwytai, gyrwyr tacsî); edrych ar ofynion trwyddedu er mwyn iddynt gydnabod ac adrodd ar faterion fel CS, puteindra dan orfod a masnachu pobl, yn ogystal â VAWDASV.	Nifer y gweithwyr sy'n ymgysylltu â hyfforddiant (cysylltiadau â gwaith Caethwasiaeth Fodern).

	Gweithio gyda chomisiynwyr a darparwyr cyfredol y rhaglenni rhianta a chefnogaeth deuluol, i sicrhau bod perthnasau diogel ac iach yn cael eu hyrwyddo, a bod unrhyw agweddau amhriodol tuag at anghydraddoldeb ar sail rhyw yn cael eu herio ac yn cael sylw priodol.	Cynllun Comisiynu Rhanbarthol
Gweithredu Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol i sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio mewn swyddi sy'n wynebu'r cyhoedd, yn cael eu harfogi i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr VAWDASV.	Grŵp 2 a 3 – Gofyn a Gweithredu Cyflwyno ar draws Gogledd Cymru o Ebrill 2018	Diweddarau a monitro data'r Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol yn rheolaidd
	Ymholiad fel mater o drefn gyda BIPBC. Sicrhau cysondeb a'i gyflwyno ar draws pob gwasanaeth iechyd.	Cofnodi pob datgeliad sy'n risg isel a chanolig, yn ogystal â risg uchel
	Staff wedi'u hyfforddi'n addas o fewn pob darparwr arbenigol - ei gyflwyno i Grwpiau 4 a 5	Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol
	Gweithrediad llawn o faes llafur arbenigol	Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol
Gweithio gyda gwasanaethau VAW Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, a'u cefnogi, i gynnal datblygiad cymunedol i herio agweddau diwylliannol a newid arfer sy'n gallu bod yn sail i anffurfio organau cenhedlu merched a phriodas dan orfod (<i>Ffynhonnell - Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref</i>)	Gweithio gyda sefydliadau arbenigol i ddatblygu adnoddau a hyfforddiant i herio agweddau diwylliannol ac arferion o fewn cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig penodol. Gweithio gydag arweinwyr cymunedol a chynrychiolwyr i ymgysylltu â merched a genethod diamddiffyn yn eu cymunedau, mewn amgylchedd diogel a saff.	Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol
	Sicrhau bod yr holl sefydliadau arbenigol yn gynhwysol ac wedi cael hyfforddiant addas wrth weithio gyda dioddefwyr anffurfio organau cenhedlu merched, priodas dan orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd.	Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol

Annog pob gweithiwr i ddatblygu polisïau'r gweithlu i godi ymwybyddiaeth o effeithiau VAWDASV mewn cyflogaeth, yn ogystal â newid agweddau tuag atynt, a rhoi sylw iddynt (<i>Ffynhonnell – Llywodraeth Cymru</i>)	Gweithio gyda chyflogwyr mawr lleol yn y sector cyhoeddus a phreifat, i annog diwylliant o gefnogaeth yn dilyn datgeliad gan ddioddefwyr a chyflawnwyr.	Nifer y cyflogwyr sy'n ymgysylltu â hyfforddiant
Gwella mynediad at wybodaeth o ansawdd uchel a chyfredol am VAWDASV a'r cyngor sydd ar gael mewn mannau cyhoeddus ac ar-lein (yn hygyrch yn y prif ieithoedd cymunedol a fformatau amgen)	Adolygu'r cyngor a'r trefniadau cysylltu ar wefannau partneriaid Sicrhau bod yr holl ddata a gwybodaeth yn gyfredol a bod partneriaid statudol yn cynnal ac yn diweddarau'r rhyngwyneb	Byrddau Diogelu Rhanbarthol i fonitro
Sicrhau bod comisiynwyr rhanbarthol (gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, gwasanaethau digartrefedd, gwasanaethau iechyd a phlant) yn integreiddio VAWDASV i gontractau prif ffrwd i ymgorffori cefnogaeth i ddioddefwyr a'u teuluoedd mewn gwasanaethau generig.	Datblygu Is-grŵp Comisiynu, sy'n cynnwys cyllidwyr sy'n dod o amrediad o wasanaethau (yn cynnwys Cefnogi Pobl, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Bwrdd Cynllunio Ardal ac ati), i gydweithredu i roi sylw i anghenion dioddefwyr a goroeswyr VAWDASV.	Cynllun Comisiynu Rhanbarthol
Datblygu a darparu rhaglenni sy'n (1) gwella gwytnwch, hyder a grymuso merched a genethod a (2) ymgysylltu'n gadarnhaol a datblygu clymblaid gyda dynion, sy'n dewis dull di-drais wrth herio VAWDASV.	Gweithio gyda gwasanaethau arbenigol a darparwyr hyfforddiant i ddatblygu pecynnau cefnogi sy'n seiliedig ar adferiad, i gynyddu gwytnwch a grymuso merched a genethod.	Pob darparwr sy'n cynnig rhaglenni addas, wedi'u hachredu
AMCAN 2: Mwy o ymwybyddiaeth mewn plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasau diogel, cyfartal ac iach, a bod ymddygiad treisgar yn anghywir bob amser		

Gweithredu fframwaith atal sy'n herio'r strwythurau sylfaenol sy'n gwneud i anghydraddoldeb ar sail rhyw a VAWDASV barhau.	Defnyddio fframwaith addysg Cymru Gyfan	Nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cydnabod perthnasau peryglus, gan wybod lle i gael cefnogaeth
	Ymyriadau teulu cyfan – cefnogaeth rhwng y cenedlaethau i alluogi teuluoedd i ddatblygu perthnasau iach a diogel	Byrddau Diogelu Rhanbarthol i fonitro
Datblygu llwybrau cadarn i blant a phobl ifanc roi gwybodaeth am drais a cheisio cefnogaeth a chynghor.	Cysylltiadau â diogelu – pob partner i sicrhau eu bod yn gallu cynnig cefnogaeth a chynghor i blant a phobl ifanc, yn dilyn datgeliad, a chadw at llwybrau gofal sydd yn eu lle ar hyn o bryd.	Byrddau Diogelu Rhanbarthol i fonitro
	Darparu gweithwyr cefnogi plant mewn asiantaethau arbenigol (yn unol â'r lefel o angen a nodwyd), yn ogystal â gweithio gydag ysgolion lleol a grwpiau ieuenctid, annog y defnydd o "gefnogwyr" i weithio fel mentoriaid cymheiriaid a chefnogaeth.	Gweithiwr plant a phobl ifanc penodol ym mhob gwasanaeth arbenigol, lle bo'n addas.
Gweithio gydag ysgolion a cholegau i gefnogi staff i weithredu ethos wedi'i lywio gan drawma, gan alluogi pobl ifanc i deimlo'n ddiogel i ddatgelu camdriniaeth.	Defnyddio dulliau iaith a chyfathrebu y gall pobl ifanc uniaethu â nhw o fewn gwaith codi ymwybyddiaeth ac atal.	Nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cydnabod perthnasau peryglus, gan wybod lle i gael cefnogaeth
	Ysgolion yn y rhanbarth i ddarparu'r gofyniad cenedlaethol o ran 'dull ysgol gyfan' o ran atal VAWDASV.	Nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cydnabod perthnasau peryglus, gan wybod lle i gael cefnogaeth
	Gwasanaethau Addysg i sefydlu systemau i nodi ac ymateb yn effeithiol i ddysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan VAWDASV a sicrhau eu bod â llwybrau i gefnogaeth.	Nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cydnabod perthnasau peryglus, gan wybod lle i gael cefnogaeth

Datblygu a darparu rhaglenni i addysg, llywio a herio pobl ifanc am berthnasau iach, camdriniaeth a chydsyniad (<i>Ffynhonnell - Swyddfa Gartref</i>)	Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i edrych ar ddarpariaeth mewn ysgol i herio agweddau a hyrwyddo perthnasau iach.	Nifer yr ysgolion sy'n mabwysiadu ethos Perthnasau Iach a darparu maes llafur newydd.
Gweithio gyda cholegau addysg bellach/uwch, i ddatblygu dull i weithio gyda phobl ifanc fel gwylwyr i hyrwyddo'r elfen o atal VAWDASV a newid cymdeithasol pellach (<i>Ffynhonnell – Swyddfa Gartref</i>)	Gweithio gyda darparwyr Addysg Uwch i ganolbwyntio ar ddiogelwch yn ystod Wythnos y Glas - yn enwedig wrth ganolbwyntio ar faterion o gydsyniad a bod yn ddiamddiffyn pan fydd unigolion o dan ddylanwad sylweddau.	Cynnwys gwybodaeth a chyngor VAWDASV ym maes llafur Wythnos y Glas.
AMCAN 3: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif a rhoi cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch dioddefwyr		
Sicrhau bod cyflawnwyr VAWDASV bob tro'n cael eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd	Darparu hyfforddiant i'r holl staff rheng flaen i gael ymateb cyson i ddatgeliadau cyflawnwyr a dioddefwyr. Dylai hyfforddiant alluogi staff i wneud asesiad o risg.	Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol
	Cefnogaeth IDVA/ISVA gyson waeth lle mae'r ardal ddaearyddol, drwy'r broses cyfiawnder troseddol ac wedi hynny.	Darpariaeth IDVA/ISVA rhanbarthol
Gweithio gyda chyflawnwyr a rhoi cyfleoedd iddynt newid ar yr un pryd â diogelu eu dioddefwyr/teuluoedd rhag rhagor o gamdriniaeth.	Rhaglenni cyflawnwyr sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ymyriadau teulu cyfan, gyda ffocws ar annog a chreu newid	Rhaglenni cyflawnwyr yn seiliedig ar dystiolaeth, sydd ar gael ar draws y rhanbarth
	Gweithio gyda Charchar EM y Berwyn i sicrhau bod cefnogaeth o'r ddalfa i'r gymuned yn ddi-dor i'r cyflawnwr a'u teulu (os yw'n addas a bod asesiadau risg cywir yn eu lle). Llwybr cadarn o asesiad i raglen yn y carchar, ac	Deilliannau ail-droseddu

	yna'n parhau yn y gymuned wedi iddynt gael eu rhyddhau.	
	Sicrhau bod cefnogaeth arbenigol yn cael ei chynnig yn dilyn datgeliadau o Drais sy'n seiliedig ar Anrhydedd neu Briodas dan Orfod, sydd ond yn cynnwys teuluoedd os yw'r risg wedi'i asesu'n isel.	Nifer y dioddefwyr sy'n cael cefnogaeth â'r teuluoedd yr ymgysylltwyd â nhw.
AMCAN 4: Gwneud ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth.		
Cefnogi gwelliannau mewn ymatebion gweithwyr proffesiynol i VAWDASV (<i>Ffynhonnell – Swyddfa Gartref</i>)	Ystyriwch weithredu prosiect sy'n debyg i'r rhaglen IRIS, drwy ddefnyddio'r model a chymhwyso hwn i'r VAWDASV (cyflwyno darpariaeth IDVA o fewn meddygfeydd meddygon teulu, yn ogystal â darpariaeth iechyd sylfaenol)	Gweithredu'r model IRIS a addaswyd
	Nifer y gwasanaethau iechyd meddwl sy'n gweithredu Grŵp 2 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ('Gofyn a Gweithredu').	Ymgorffori 'Gofyn a Gweithredu' mewn gwasanaethau iechyd meddwl
Gwneud y gorau o fannau datgelu diogel a chyfleoedd am gymorth cynnar – gan edrych mewn cymunedau lleol am oroeswyr (oedolion a phlant) ac am gyflawnwyr (<i>Ffynhonnell Llywodraeth Cymru, Swyddfa Gartref</i>)	Ymgorffori Gofyn a Gweithredu ar draws Gogledd Cymru, i sicrhau bod pob staff rheng flaen yn deall yr angen i ddarparu amgylchedd diogel a saff i alluogi datgeliad.	Nifer y datgeliadau a wneir drwy 'Ofyn a Gweithredu'
Parhau i ddarparu cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar ferched sy'n dod i	Gweithio gyda Chanolfan Merched Gogledd Cymru i adeiladu ar eu gwaith cyfredol gyda merched sy'n dod i	Nifer y merched sydd ynghlwm wrth y system cyfiawnder

gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol (<i>Ffynhonnell Llywodraeth Cymru</i>)	gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, a chyflwyno'r gefnogaeth hon ar draws y rhanbarth.	troseddol, sy'n ymgysylltu â gwasanaethau
Sicrhau bod dulliau ymyrraeth gynnar sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn cael eu defnyddio ar draws y rhanbarth	Edrych ar ddarparwyr arbenigol yn cael eu cyd-leoli gyda Heddlu Gogledd Cymru, Iechyd, Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau addas eraill.	Darparwyr arbenigol yn gweithio o swyddfeydd wedi'u cyd-leoli
	Adeiladu capasiti a chyllid cynaliadwy ar gyfer gwaith ymyriadau gyda phlant a phobl ifanc	Arian cynaliadwy wedi'i ddyrannu ar gyfer gwaith gyda phlant a phobl ifanc
Sicrhau bod teuluoedd a nodwyd fel bod angen cefnogaeth i fyw gyda VAWDASV yn cael mynediad cynnar at gefnogaeth arbenigol, i liniaru'r trawma sy'n gysylltiedig â phrofiadau niweidiol mewn plentyndod ac fel oedolion (<i>Ffynhonnell Llywodraeth Cymru</i>)	Gweithio gyda darparwyr arbenigol i lywio'r datblygiad o ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE), a sut y gellir ei ddefnyddio i ymateb i ddioddefwyr a goroeswyr VAWDASV	Nifer y gwasanaethau arbenigol sy'n cynnig cefnogaeth wedi'i llywio gan drawma, o ogwydd ACE.
Cyflwyno dull ACE gyda rhaglenni ymyriadau cynnar presennol	Cyflwyno hyfforddiant ACE	Nifer y staff ACE a hyfforddir
AMCAN 5: Mae gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael hyfforddiant i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol ac addas i ddioddefwyr a goroeswyr		
Gweithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn llawn	Is-grŵp Hyfforddi i ddatblygu prosiect Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol llawn a chynllun gweithredu am y pum mlynedd nesaf, yn dangos sut y bydd yn cael ei gyflwyno, pryd y bydd pob Awdurdod Lleol yn dechrau cyflwyno a sut y caiff hyn ei fonitro.	Cynllun Hyfforddi i'w fonitro

Sicrhau bod darparwyr gwasanaeth arbenigol yn gallu cefnogi dioddefwyr a goroeswyr sy'n profi sawl anfantais	Darparu hyfforddiant yn seiliedig ar adferiad, ac wedi'i lywio gan drawma, ar gyfer pob darparwr gwasanaeth arbenigol ac asiantaethau partner.	Nifer y staff ACE a hyfforddir
Darparu hyfforddiant VAWDASV i asiantaethau partner cyfiawnder teuluol a throeddol, gan alinio hyn gyda gofynion y Coleg Plismona, a darparu darparwyr achrededig yn y sector arbenigol, lle maent ar gael. <i>(Ffynhonnell - Llywodraeth Cymru)</i>	Darparu hyfforddiant i staff y llys i bwysleisio pwysigrwydd diogelwch dioddefwyr yn ystod achosion cyfiawnder troeddol, yn ogystal â'r ddealltwriaeth y gall penderfyniadau a wneir mewn achosion troeddol effeithio ar orchmynion sifil.	Nifer staff y llys sy'n gwneud yr hyfforddiant sydd ar gael
Sicrhau bod y Bwrdd Diogelu rhanbarthol yn adolygu gofynion systemau, data a monitro ar gyfer dulliau diogelu, gan eu bod yn ymwneud â thrais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol <i>(Ffynhonnell - Llywodraeth Cymru)</i>	Gweithio gyda Byrddau Diogelu Rhanbarthol i'w hannog i fonitro effeithiau VAWDASV ar oedolion a phlant ar draws Gogledd Cymru.	Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i fonitro
Gwella'r hyfforddiant a roddir i weithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â chyflawnwyr, i sicrhau bod datgeliadau'n cael eu rheoli'n addas.	Hyfforddiant i'w gynnig i weithwyr proffesiynol, sy'n rhoi'r ddealltwriaeth o'r angen i gynnwys gweithdrefnau disgyblu/camymddwyn mewnol, yn ogystal â gweithdrefnau cyfiawnder troeddol.	Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol
Datblygu ymateb mwy integredig ar draws llysoedd troeddol a sifil/teuluol, drwy roi mynediad i eiriolaeth annibynnol i ddioddefwyr, drwy ddefnyddio atebion sifil i gael mynediad at amddiffyniad, gan sicrhau nad yw'r rhain yn mynd yn groes i fesurau amddiffyn yn y system cyfiawnder troeddol. <i>(Ffynhonnell - Llywodraeth Cymru)</i>	Gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troeddol, i sicrhau bod hyfforddiant digonol yn cael ei roi i gefnogi dioddefwyr VAWDASV drwy ddefnyddio atebion sifil.	Cynllun Hyfforddi Rhanbarthol a niferoedd sy'n cael eu hyfforddi i gefnogi dioddefwyr drwy ddefnyddio atebion sifil

Mynd ati i sicrhau diogelwch merched a genethod yn y diwydiant rhyw, drwy gamau cydlynol i fynd i'r afael â thrais neu ecsbloetiaeth, a chefnogi eu hymadawiad os oes angen	Rhoi cyngor a gwybodaeth i ferched sy'n dymuno gadael y diwydiant rhyw a sicrhau eu bod yn cael cynnig cefnogaeth berthnasol ac amserol os yw'n briodol. Gweithio gyda'r Grŵp Gweithwyr Rhyw, Lleihau Camfanteisio'n Rhywiol drwy Buteindra, i sicrhau y rhoddir y gefnogaeth addas.	Y nifer sy'n cael mynediad at gefnogaeth berthnasol
Sicrhau bod yna arbenigwyr wedi'u hyfforddi'n briodol ar gael i weithio gyda phlant a phobl ifanc wedi'u heffeithio gan VAWDASV.	Gweithio gyda chomisiynwyr i ganolbwyntio ar yr angen am wasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc mewn lloches ac yn y gymuned.	Arian cynaliadwy ar gyfer gwaith gyda phlant a phobl ifanc
AMCAN 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau gydag adnoddau addas, sydd o ansawdd uchel, dan arweiniad anghenion, yn seiliedig ar gryfderau, sy'n ymateb i rywedd, ar draws Cymru		
Creu ethos o gydweithredu a thryloywder ymhlith comisiynwyr, darparwyr a goroeswyr	Datblygu a chynllunio gwasanaethau i'w gwneud ar y cyd.	Cynllun Comisiynu Rhanbarthol
	Gweithio gyda chomisiynwyr i sicrhau bod yr holl waith o gofnodi ac adrodd yn cael ei wneud yn defnyddio dangosyddion rhanbarthol. Sicrhau bod casglu data a monitro'n gyson ar draws bob partner a bod data'n cael ei rannu'n briodol.	Defnyddio dangosyddion cofnodi a monitro sydd wedi cael cytundeb canolog
Sicrhau y gall dioddefwyr VAWDASV gael mynediad cyson at le o ddiogelwch, eiriolaeth a chefnogaeth yn syth, waeth lle maent yn byw yng Ngogledd Cymru.	Llinell gymorth – sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i sicrhau bod poblogaeth Gogledd Cymru'n cael mynediad at linell gymorth 24 awr.	Tystiolaeth o weithio'n gydweithredol ar draws y rhanbarth
	Lloches – yn gyson ar draws pob ardal gyda chefnogaeth ar gyfer CYP ym mhob ardal.	Nifer y llochesi sy'n cynnig cefnogaeth benodol i blant a phobl ifanc

	Darpariaeth arbenigol i ddioddefwyr gyda diagnosis deuol - iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac ati	Nifer y gwasanaethau arbenigol sy'n cynnig cefnogaeth benodol i ddioddefwyr gyda sawl anfantais
	Cydnabod daearyddiaeth Gogledd Cymru a'r angen i ystyried yr elfen wledig wrth roi cefnogaeth.	Darpariaeth leol yn cydnabod yr elfen wledig ac anghenion ychwanegol dioddefwyr sy'n byw mewn cymunedau gwledig
	Sicrhau bod darpariaeth gwella diogelwch ar gael ac yn gyson ar draws pob ardal.	Pob ardal gyda darpariaeth gwella diogelwch gyson
Sicrhau bod safbwyntiau goroeswyr yn cael eu hymgorffori fel mater o drefn ac yn gyson mewn gwelliant gwasanaeth (<i>Ffynhonnell - Llywodraeth Cymru</i>)	Defnyddio grwpiau ffocws i asesu effeithiau darpariaeth gwasanaeth yn rheolaidd, a meysydd ar gyfer gwelliant.	Canolbwyntio ar ddeilliannau ac effaith ar gyfer goroeswyr – defnyddio “teithiau” i ddangos gwelliannau ac adferiad.
Mapio adnoddau/cyllid ar draws y sector cyhoeddus sy'n cyfrannu at ymatebion VAWDASV i sicrhau bod gwasanaethau'r cyhoedd yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau sydd ar gael, ac yn gallu dangos gwerth am arian wrth ymateb i oroeswyr a chyflawnwyr (<i>Ffynhonnell – Llywodraeth Cymru</i>)	Comisiynu Is-grŵp a Thîm Datblygu Rhanbarthol i edrych ar fodolau ariannu cyfredol a gweithio gyda phob comisiynydd i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf cost effeithiol.	Arian cynaliadwy ar gyfer meysydd o arfer gorau a defnydd addas o adnoddau
Cynllun comisiynu strategol ar y cyd i'w ddatblygu, a phob gwaith comisiynu VAWDASV i gadw at ganllaw arfer da Cymru	Datblygu Cynllun Comisiynu cadarn i edrych ar adnoddau ar draws Gogledd Cymru sydd ar hyn o bryd yn cyfrannu at agenda VAWDASV, a sicrhau bod yr holl gyllid yn cael ei gomisiynu'n unol ag angen (fel y gwelwyd yn yr Asesiad Anghenion).	Cynllun Comisiynu Rhanbarthol

Darparu darpariaeth Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn unol ag adolygiad o ddarpariaeth y Ganolfan yng Nghymru, a gwneud sicrwydd ansawdd a gwasanaeth meincnodi yn erbyn dangosyddion cenedlaethol	Gweithio gyda'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol i sicrhau bod dangosyddion cenedlaethol yn cael eu defnyddio i fonitro darpariaeth ac ansawdd gwasanaethau.	Defnyddio dangosyddion cenedlaethol i fonitro perfformiad
Sicrhau bod goroeswyr sydd 'heb gyllid cyhoeddus yn agored iddynt' yn gallu cael mynediad at gefnogaeth a diogelwch gan wasanaethau arbenigol, yn cynnwys cefnogaeth yn seiliedig ar loches, drwy ddatblygu gweithdrefnau aml-asiantaeth ar gyfer ymateb, a chronni adnoddau sector cyhoeddus i sefydlu 'cronfa amddifadedd' ar gyfer y rhanbarth	Gweithio gyda BAWSO (a gwasanaethau arbenigol eraill) a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i oroeswyr sydd heb gyllid cyhoeddus yn agored iddynt.	Niferoedd y cefnogir heb gyllid cyhoeddus yn agored iddynt
Sicrhau bod dioddefwyr VAWDASV gyda chefnogaeth addas drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol, o ddatgelu i erlyn.	IDVA/ISVA – Datblygu darpariaeth gyson ar draws Gogledd Cymru, gan gynnig yr un gwasanaeth i ddioddefwyr VAWDASV, waeth lle maent wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru.	Gwasanaeth IDVA Rhanbarthol
	MARAC – cefnogaeth addas i ddioddefwyr risg uchel Mwy o brosesau MARAC wedi'u safoni. Dylid monitro pob ardal yn rheolaidd o ran llywodraethu a gweithredu prosesau. Creu Grŵp Llywio MARAC Gogledd Cymru i oruchwylio'r broses	Grŵp Llywio MARAC Gogledd Cymru

Sicrhau bod cefnogaeth tymor hir yn ei lle i oroeswyr adfer o'u profiadau, gan ddefnyddio ymyriadau sydd wedi'u llywio gan drawma, ac yn seiliedig ar adferiad	Cefnogaeth trais rhywiol a darpariaeth arbenigol	Digon o gyllid ar gyfer cefnogaeth trais rhywiol
	Cefnogaeth tai, sy'n hyrwyddo dioddefwyr sy'n cael cefnogaeth i aros yn eu tai, a bod y cyflawnwr yn cael ei symud oddi yno	Nifer y dioddefwyr sy'n cael eu cefnogi i aros yn eu cartref eu hunain
	Cefnogaeth arbenigol benodol i'r rhai sydd wedi profi Anffurfio Organau Cenhedlu Merched, HBV, FM a/neu heb gael cyllid cyhoeddus yn agored iddynt	Nifer y dioddefwyr a gefnogir

ATODIADAU

Atodiad 1 - Diffiniadau

Cam-drin Domestig

Dyma batrwm o reolaeth orfodol gan un person, sy'n defnyddio ymddygiad camdriniol yn emosiynol, corfforol a/neu rywiol, i sicrhau pŵer a rheolaeth dros unigolyn arall y mae ganddynt berthynas agos neu deuluol gyda nhw, neu wedi cael yn y gorffennol. Prif nodwedd cam-drin domestig yw bod yr ymddygiad yn fwriadol ac yn cael ei gyflawni i beri ofn, ac yn cynnwys llawer o bŵer sydd wedi'i gamddefnyddio, i reoli'r ffordd y mae'r dioddefwr yn teimlo, yn meddwl ac yn ymddwyn.

Diffiniad y Swyddfa Gartref o gam-drin domestig yw:

'Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau sy'n cynnwys ymddygiad sy'n rheoli, yn gorfodi neu'n bygwth, trais neu gamdriniaeth rhwng y rhai hynny dros 16 oed sydd yn, neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu'n aelodau teuluol, waeth beth yw eu rhywedd neu rywioldeb. Gall hyn gynnwys, ond nid ei gyfyngu i'r mathau canlynol o gamdriniaeth: seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol, emosiynol.

'Mae ymddygiad sy'n rheoli yn cynnwys: amrediad o weithredoedd wedi'u dylunio i wneud unigolyn yn israddol a/neu eu gwneud yn ddibynnol arnynt drwy eu gwahanu o'u ffynonellau o gefnogaeth, gan gamfanteisio ar eu hadnoddau a'u gallu er budd personol, a'u hamddifadu o'r dulliau y maent eu hangen ar gyfer annibyniaeth, gwrthwynebiad a rheoleiddio eu hymddygiad bob dydd.

Mae ymddygiad sy'n gorfodi'n cynnwys: gweithred neu batrwm o ymosodiadau, bygythiadau, codi cywilydd a chodi ofn, neu gamdriniaeth arall sy'n cael ei defnyddio i niweidio, cosbi neu godi ofn ar eu dioddefwr.'

Mae diffiniad Llywodraeth y DU, nad ydyw'n ddiffiniad cyfreithiol, yn cynnwys trais sy'n seiliedig ar 'anrhydedd' honedig, anffurfio organau cenhedlu merched (FGM) a phriodas dan orfod, ac mae'n amlwg nad yw dioddefwyr wedi'u cyfyngu i un grŵp ar sail rhyw neu grŵp ethnig.

Mae wedi'i ddeall yn eang ers peth amser fod rheolaeth orfodol yn rhan greiddiol o drais domestig. O'r herwydd, nid yw'r estyniad yn cynrychioli newid sylfaenol yn y diffiniad. Fodd bynnag, mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd cydnabod rheolaeth orfodol fel patrwm cymhleth o orgyffwrdd a cham-drin mynych wedi'i gyflawni o fewn cyd-destun o bŵer a rheolaeth.

Trais a cham-drin rhywiol

Mae ymosodiad rhywiol yn weithred o ymyriad â rhywun yn gorfforol, seicolegol ac emosiynol, ar ffurf gweithred rywiol, sy'n cael ei gwneud ar rywun heb eu caniatâd. Gall gynnwys gorfodi neu ddylanwadu ar rywun i fod yn dyst i unrhyw weithred rywiol, neu i gyfranogi ynddynt. Mae'n amrywio o oedolion yn dinoethi eu horganau cenhedlu mewn modd anwedus, i artaith rywiol greulon fynych, ac yn yr achosion mwyaf eithafol, marwolaeth.

Mae trais yn weithred dreisgar, sy'n domiynddu, drwy ddefnyddio gweithredoedd rhywiol, yn cynnwys ymdreiddiad, fel arfau. Rhoddodd Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 estyniad ar y

diffiniad o drais i gynnwys ymdreiddiad pidyn i wain, anws neu geg unigolyn arall. Gellir ei gyflawni yn erbyn merched neu ddynion, ond gan ei fod yn cynnwys ymdreiddiad gyda phidyn, dim ond dyn all ei gyflawni. Fe newidiodd y Ddeddf y gyfraith hefyd am gydsyniad a choelio cydsyniad: mae unigolyn yn rhoi cydsyniad os ydyw ef neu hi'n cytuno drwy ddewis, a gyda'r rhyddid a'r gallu i wneud y dewis hwnnw.

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn cynnwys gweithgaredd rhywiol gyda phlant gan oedolion, a gorfodi gweithgaredd rhywiol rhwng y plant eu hunain. Mae'n cynnwys cam-drin pŵer ac ymddiriedaeth, i berswadio neu orfodi plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, neu annog plentyn i ymddwyn mewn ffyrdd amhriodol yn rhywiol.

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ffurf o gam-drin plant yn rhywiol. Gall cam-drin rhywiol gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys ymosodiad drwy ymdreiddiad (er enghraifft, trais neu gyfathrach eneuol) neu weithredoedd heb ymdreiddiad megis mastyrbiad, cusanu, rhwbio a chyffwrdd tu allan i ddillad. Gall gynnwys gweithgareddau lle nad oes cyffwrdd, fel cynnwys plant wrth gynhyrchu delweddau rhywiol, gorfodi plant i edrych ar ddelweddau rhywiol neu i wyllo gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n amhriodol yn rhywiol, neu fagu perthynas amhriodol gyda phlentyn er mwyn eu paratoi i gael eu cam-drin (yn cynnwys dros y rhyngwyd).

Gall trais rhywiol hefyd gynnwys cam-drin defodol, sydd fel arfer yn dechrau'n gynnar yn ystod plentyndod, ac fel arfer yn cynnwys mwy nag un unigolyn fel camdrinwyr, ac yn cael ei ddiffinio fel cam-drin rhywiol wedi'i drefnu, a ffurfiau eraill o gam-drin, drwy ddefnyddio defodau (gyda neu heb system gred), a phatrymau o ddysgu a datblygu, i gynnal y gamdriniaeth ac i ddistewi'r rhai sy'n cael eu cam-drin.

Gall cyflawnwyr gynnwys perthnasau, partneriaid agos a dieithriaid, ond mae'r rhan fwyaf yn hysbys mewn rhyw ffordd. Gall ddigwydd mewn unrhyw le – yn y teulu/aelwyd, gweithle, mannau cyhoeddus, lleoliadau cymdeithasol, yn ystod sefyllfaoedd o ryfel/gwrthdaro.

Camfanteisio'n rhywiol ar unigolyn, yn cynnwys drwy'r diwydiant rhyw

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ffurf o gam-drin plant yn rhywiol. Mae'n digwydd lle mae unigolyn neu grŵp yn cymryd mantais ar anghydbwysedd o bŵer i orfodi, twyllo, neu ddylanwadu ar blentyn neu berson ifanc o dan 18 oed i weithgaredd rhywiol (a) yn gyfnewid am rywbeth y mae'r dioddefwr ei angen neu ei eisiau, a/neu (b) ar gyfer mantais ariannol neu statws cynyddol y cyflawnwr neu'r hwyluswr. Efallai y camfanteisiwyd yn rhywiol ar ddioddefwr hyd yn oed os yw'n ymddangos fod y gweithgaredd rhywiol yn gytûn. Nid yw camfanteisio'n rhywiol ar blant bob amser yn cynnwys cyffyrddiad corfforol; gall hefyd ddigwydd drwy ddefnyddio technoleg.

Mae camfanteisio'n rhywiol ar unigolyn yn torri ar hawliau dynol unigolyn i urddas, cydraddoldeb, parch a lles corfforol a meddyliol. Daw'n gamfanteisio'n rhywiol ar unigolyn yn fasnachol pan fydd unigolyn arall, neu grŵp o bobl, yn cyflawni budd neu gynnydd ariannol drwy'r gweithgaredd. Mae'r gweithgareddau hyn wedi profi eu bod yn niweidiol i rai merched unigol sy'n rhan ohonynt, ac wedi cael effaith negyddol ar safle pob merch, drwy wrthrycholiad cyrff merched. Mae gweithgareddau fel pornograffi, puteindra, dadwisgo, glin-ddawnsio/dawnsio bwrdd, yn ffurfiau o gam-fanteisio'n rhywiol ar unigolion yn fasnachol.

Mae camfanteisio'n rhywiol ar unigolyn yn rhoi gwedd erotig ar anghydraddoldeb merched ac hefyd yn gyfrwng ar gyfer hiliaeth, sy'n gwneud merched o leiafrifoedd ethnig yn ddioddefwyr anghymesur. Mae camfanteisio'n rhywiol ar ferched a genethod yn fasnachol yn eu defnyddio

fel nwyddau, ac yn cefnogi diwylliant sy'n ystyried merched fel gwrthrychau sy'n fwy o 'rannau corff' nag yn fod dynol cyfan, ac yn rhoi gwedd erotig ar drais dynion, a'u 'hawl i brynu' canfyddedig gyda pha bynnag weithgareddau maent wedi'u rhywioli. Mae'n hanfodol gwahanu gweithgaredd rhywiol oddi wrth weithgaredd rhywiol sy'n camfanteisio ar rywun.

Aflonyddu rhywiol yn y gweithle a'r gofod cyhoeddus

Mae aflonyddu rhywiol yn ymddygiad dieisiau o natur rhywiol sy'n:

- Ymyrryd â'ch urddas
- Yn gwneud i chi deimlo bod rhywun yn eich bygwth, wedi'ch diraddio neu wedi'ch bychanu
- Yn creu amgylchedd gelyniaethus neu sarhau

Nid ydych wedi gorfod gwrthwynebu ymddygiad rhywun yn y gorffennol er mwyn iddo gael ei ystyried yn ddieisiau.

Gall aflonyddu rhywiol ddigwydd yng nghyd-destun trais a chamdriniaeth ddomestig a/neu rhywiol, a gall hefyd ddigwydd yn y gweithle neu yn y gofod cyhoeddus. Gall aflonyddu rhywiol fod yn llafar (sylwadau am ymddangosiad, ceisiadau am ffafrau rhywiol), ddim yn llafar (dangos deunydd rhywiol sy'n dangos popeth), neu gorfforol (cyffwrdd, pinsio, ymosodiad, trais). Gall aflonyddu rhywiol yn y gwaith hefyd gynnwys ymddygiad yn seiliedig ar ryw sy'n effeithio ar urddas merched a dynion yn y gwaith, sy'n cynnwys ymddygiad corfforol, ar lafar ac nid ar lafar. Mae ymddygiad yn annerbyniol os yw'n ddieisiau, yn afresymol ac yn sarhaus i'r derbynnydd.

Mae aflonyddu rhywiol yn gyhoeddus yn digwydd o ganlyniad i'r rhai hynny sy'n teimlo hawl i rywbeth. Wrth ei graidd, mae deinameg pŵer sy'n atgoffa grwpiau hanesyddol israddol (merched a phobl LGBTQ, er enghraifft) yn gyson am ba mor ddiamddiffyn ydynt i ymosodiadau mewn mannau cyhoeddus. Ymhellach at hynny, mae'n atgyfnerthu'r gwrthrycholiad rhywiol hollbresennol o'r grwpiau hyn mewn bywyd bob dydd.

Stelcian ac aflonyddu

Aflonyddu mynych neu ymddygiadau eraill sy'n achosi ofn, braw neu drallod. Gall gynnwys galwadau ffôn, negeseuon testun neu lythyrau, cardiau neu 'anrhegion' mynych neu fygythiol; difrodi eiddo; dilyn rhywun ac ymddangos yn eu cartref neu weithle; ffugio hunaniaeth rywun er mwyn cysylltu ag eraill; targedu ffrindiau, teulu a chymdogion.

Gellir diffinio stelcian fel sylw parhaus a dieisiau, sy'n poeni rhywun neu'n gwneud iddynt deimlo'n ofidus. Mae'n cynnwys ymddygiad sy'n digwydd dwy waith neu fwy, wedi'i gyfeirio at y dioddefwr gan unigolyn arall, sy'n peri braw neu drallod, neu i ofni y caiff trais ei ddefnyddio. Nid yw'r broblem yn 'gorfforol' bob amser – gall stelcian effeithio ar ddioddefwyr yn seicolegol. Mae cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwyd yn cael eu defnyddio'n aml ar gyfer stelcian ac aflonyddu, a gall 'seiber-stelcian' neu fygythiadau ar-lein fod yr un mor frawychus.

Priodas dan Orfod

Priodas lle nad yw un neu'r ddau briod, neu mewn achos rhai oedolion gydag anableddau dysgu neu gorfforol, yn gallu rhoi cydsyniad i briodas a bod yna orfodaeth, sy'n cynnwys pwysau corfforol, seicolegol, ariannol, rhywiol ac emosiynol.

Mae priodas dan orfod yn effeithio pobl o sawl cymuned a diwylliant - er enghraifft, pobl o gymunedau pobl dduon, lleiafrif ethnig a lloches; pobl lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol; a phobl anabl.

Trais yn seiliedig ar ‘anrhydedd’ honedig

Ffurfiâu gwahanol o drais, yn bennaf, ond nid wedi'u cyfyngu, yn erbyn merched, yn cynnwys ymosodiadau, carchariad a llofruddiaeth, sy'n cael eu defnyddio i reoli ymddygiad mewn teuluoedd a chymunedau i ddiogelu credoau diwylliannol a chrefyddol canfyddedig, a/neu anrhydedd.

Mae dioddefwyr yn cael eu cosbi am danseilio, yn wirioneddol neu'n honedig, yr hyn y mae'r teulu neu'r gymuned yn ei gredu yw'r cod ymddygiad cywir. Wrth groesi'r cod ymddygiad cywir hwn, mae'r unigolyn yn dangos nad ydynt wedi'u rheoli'n gywir i gydymffurfio gan eu teulu, ac mae hyn yn “cywilyddio” neu'n “amharchu'r” teulu.

Mae'r cysyniad o ‘anrhydedd’ yn gymhelliad ar gyfer trais, neu'n ffactor gorfodi sy'n atal merched rhag gadael sefyllfaoedd camdriniol, yn hytrach na ffurf benodol o drais. Mae'n torri ar draws pob diwylliant, cenedligrwydd, grwpiau ffydd a chymunedau, ac yn mynd y tu hwnt i ffiniau cenedlaethol a rhyngwladol.

Anffurfio Organau Cenhedlu Merched (FGM)

Mae hyn yn cynnwys tynnu neu addasu genitalia benywaidd allanol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, neu eu haddasu, ar gyfer rhesymau nad ydynt yn feddygol. Mae FGM yn cael ei ddosbarthu'n bedwar math: Math 1 – Clitoridectomi: tynnu'r clitoris oddi yno'n gyfangwbl neu'n rhannol ac mewn achosion prin iawn, y blaengroen yn unig; Math 2 – Toriad: tynnu'r clitoris a'r gweflau lleiaf yn gyfangwbl neu'n rhannol, drwy dorri'r gweflau mwyaf neu beidio â'u torri; Math 3 – Gwäegu: culhau agoriad y wain drwy greu sêl yn orchudd. Mae'r sêl yn cael ei gwneud drwy dorri ac ail-leoli'r labia mewnol neu allanol, drwy dynnu'r clitoris neu beidio; a Math 4 - Arall: pob gweithdrefn niweidiol arall i'r genitalia benywaidd ar gyfer dibenion nad ydynt yn feddygol, er enghraifft, pricio, tyllu, endorri, crafu a serio'r ardal genhedlol.

Mae'r arfer yn ddiangen o safbwynt meddygol, yn eithriadol o boenus a gyda chanlyniadau iechyd difrifol, ar yr adeg pan wneir yr anffurfiad ac yn hwyrach ymlaen mewn bywyd. Mae'n cael ei gynnal fel arfer ar enethod ifanc, rhywbryd rhwng y cyfnod maent yn fabanod a 15 oed, neu cyn iddynt briodi, ac weithiau ar ferched beichiog a gwragedd gweddw. Mae FGM yn anghyfreithlon (Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Merched 2003) ac mae ei ganlyniadau iechyd niweidiol helaeth yn cael eu cydnabod yn eang.

Masnachu/caethwasiaeth fodern

Mae Caethwasiaeth Fodern yn cael ei diffinio yn Neddf Caethwasiaeth Fodern 2015, sy'n categoreiddio troseddau Caethwasiaeth, Caethiwed a Llafur dan Orfod a Gorfodol, a Masnachu mewn Pobl (sy'n dod o'r Protocol Palermo). Mae'r troseddau hyn yn cynnwys dal unigolyn mewn sefyllfa o gaethwasiaeth, caethiwed, neu lafur dan orfod neu orfodol, neu hwyluso eu taith gyda'r bwriad o'u hecsbloetio nhw ar ôl hynny. Er bod masnachu mewn pobl yn aml yn cynnwys elfen trawsffiniol rhyngwladol, mae hefyd yn bosibl bod yn ddioddefwr o gaethwasiaeth fodern yn eich sir eich hun.

Ni all plant roi cydsyniad i gael eu hecsbloetio, felly nid yw'r elfen o orfodi neu dwyllo'n gorfod bod yn bresennol i fod yn drosedd.

Mae masnachu'n golygu recriwtio, cludo, cadw neu dderbyn unigolion, drwy ddefnyddio bygythiadau neu rym neu fathau eraill o orfodi, o gipio, o dwyll, o ddichell, o gamddefnyddio pŵer neu sefyllfa o fod yn ddiamddiffyn, neu o roi neu dderbyn taliadau neu fudd-daliadau, i gael cydsyniad unigolyn sy'n cael rheolaeth dros unigolyn arall; at ddibenion ecsbloetio.

Atodiad 2 – Cynllun Comisiynu (i ddilyn)